

YR WYTHNOS WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL 2025

A wyt ti'n
credu
hyn?



DO YOU BELIEVE THIS?
WEEK OF PRAYER FOR CHRISTIAN UNITY



18-25 IONAWR 2025

www.ctbi.org.uk/weekofprayer



Eicon o Grist yn y fynachlog yn Bose, llun gan Jim Forest

Wrth wraidd ein myfyrdodau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni mae'r cwestiwn a ofynnwyd gan Iesu i Martha: "A wyt ti'n credu hyn?" (Ioan 11:26). Roedd yr un cwestiwn hwn yn atseinio drwy gydol trafodaethau'r Cyngor Eciwmenaid cyntaf, a gyfarfu yn Nicea yn y flwyddyn 325, gan ddod â chymunedau Cristnogol o bob cwr o'r byd ynghyd i gryfhau eu cydberthynas fel Eglwys Iesu Grist. O'i ddarllen ar ei ben ei hun gallai'r cwestiwn ymddangos fel her drawiadol, ond yn y cyd-destun ysgrythurol mae'n amlwg bod Iesu'n dweud y geiriau hyn yn gariadlon, a'u bod wedi'u derbyn fel gwahoddiad yn ogystal â her. Yn yr un modd, er nad oedd Cyngor Nicea heb ei heriau wrth i Eglwys glwyfedig a gwasgaredig geisio dirnad gwirionedd neges yr Efengyl, roedd yno awydd amlwg i ddyfnhau cysylltiad a pherthyn ac i fyw yn ffyddlon fel disgyblion Crist.

Wrth fyfyrto ar y digwyddiadau hyn, cawn ein hatgoffa bod rhodd ein ffydd yn ein calonogi yn ogystal â'n herio. Cafodd dathlu 1700 mlynedd ers Cyngor Nicea



Icon of Christ at the monastery at Bose, photo by Jim Forest

At the heart of our reflections for this year's Week of Prayer for Christian Unity is the question posed by Jesus to Martha: "Do you believe this?" (*John 11:26*). This same question resonated throughout the deliberations of the first Ecumenical Council, meeting in Nicaea in 325, which gathered Christian communities from around the world to strengthen their relationships as the Church of Jesus Christ. Read in isolation the question might appear as a stark challenge, but from the Gospel story it is clear that the words of Jesus are spoken in love and experienced as invitation as well as challenge. Similarly, while the Council of Nicaea was not without its challenges as a wounded and scattered Church sought to discern the truth of the Gospel message, there was an obvious desire to deepen connection and belonging and to live faithfully as disciples of Christ.

Reflecting on these moments we are reminded that the gift of our faith brings both support and challenge. The 1700th anniversary of the Council of Nicaea this

ei groesawu gyda brwdfrydedd gobeithiol yn yr Eglwys fyd-eang ac mewn cyrff eciwmenaidd, gan ysbrydoli ystod eang o ddigwyddiadau a thrafodaethau. Mae'r dathlu'n achlysur arwyddocaol ledled y gwahanol draddodiadau Cristnogol, er gwaethaf y rhannu fu ar ein llwybrau yn y canrifoedd ers hynny. Mae rhai wedi aros yn agosach at yr Eglwys a ragwelwyd yn Nicea gyda Chredo Nicea wedi parhau i fod yn ganolog bwysig fel datganiad o ffydd, tra bo eraill wedi dilyn patrymau nad ydynt yn seiliedig ar gredoau gan roi mwy o bwyslais ar ffyrdd eraill o fynegi ffydd Gristnogol gyffredin. Mae edrych yn ôl gyda'n gilydd o'n gwahanol safbwyntiau yn gyfle i ddyfnhau cyd-ddealltwriaeth a'n perthynas â'n gilydd, gan gryfhau ein hundod mewn amrywiaeth.

Er ein bod yn cydnabod gwerth edrych tuag at y gorffennol, rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol o'r angen i fyfyrio ynghylch y modd yr ydym yn ymateb i gwestiwn Crist o dan amgylchiadau heddiw, gan ystyried wrth i ni wneud hynny yr hyn y gallem ei ddysgu oddi wrth esiampl a phrofiad Nicea. Cwestiwn pwysig yn hynny o beth, ac un y mae adnoddau'r Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol eleni yn ceisio ymateb iddo yw: sut mae hyn oll yn berthnasol i fywyd a chenhadaeth yr eglwys leol?

Mae gennym gyfle i ddathlu a phrofi cryfder ac anogaeth o rodd ein ffydd gyffredin. Yn yr amseroedd cythryblus ac ansicr hyn, gall dyncwch y ffydd honno fod yn achos gobaith i ni. Roedd yr Eglwys a ymgynullodd yn Nicea yn un a gafodd ei hysgwyd a'i chlwyfo gan drais ac erledigaeth, ac felly gallai uniaethu â dioddefaint y ddynoliaeth. Daeth cyfle iddi fod mewn deialog â'r grymoedd gwleidyddol a oedd yn gosod dewisiadau anodd iddi ynghylch y ffordd orau i ddisgyblion ffyddlon Crist, nad yw ei Deyrnas o'r byd hwn, rannu Newyddion Da'r Efengyl. Yn y byd rhwygiedig sydd ohoni heddiw, pan danseiliwyd ymddiried pobl ym mharodrwydd grymoedd ac awdurdodau gwleidyddol, a'r Eglwys ei hun, i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, sut y gallai adnewyddu ein hymrwymiad i undod Cristnogol gyfrannu at newid er gwell?

Mae angen gweledigaeth newydd ar ein byd rhwygiedig a thoredig o ystyr heddwch, sy'n canolbwyntio ar gydnabod ein bod yn gydgyssylltiedig yn ein dynoliaeth gyffredin. Wrth i ni ddod ynghyd i nodi 1700 blynedd ers Cyngor Nicea, mae gennym gyfle i ofyn y cwestiynau anodd ynghylch yr hyn a allai fod yn amharu ar ein hunaniaeth gyffredin fel Cristnogion a'n cyd-dystiolaethu i'r byd. Fe'n hatgoffir o rym trawsffurfiol ein ffydd sy'n cynnig gobaith mewn dioddefaint trwy'r addewid yr adnewyddir popeth yng Nghrist.

Dr Nicola Brady, Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

year has been embraced with a hopeful enthusiasm in the global Church and in ecumenical bodies, inspiring a wide range of events and dialogues. It is valued as a significant moment of shared history across the different Christian traditions, despite the many ways in which our paths may have diverged in the years since. Some have remained closer to the Church envisaged at Nicaea with the Nicene Creed continuing to be of central importance as a statement of faith, while others have adopted non-credal models of Church placing greater emphasis on other forms of expression of shared Christian faith. Looking back together from our different perspectives presents an opportunity to deepen understanding and relationships, strengthening our unity in diversity.

While recognising the value of this looking back, we have also been conscious of the need to reflect on how we are responding to Christ's question in the circumstances of today, considering as we do so what we might learn from the example and experience of Nicaea. An important question in that regard, and one to which this Week of Prayer for Christian Unity resource seeks to respond is: what is the relevance to the life and mission of the local church?

There is an opportunity to celebrate and draw strength and encouragement from the gift of our shared faith. In these troubled and turbulent times, we can take heart from the endurance of that faith. The Church that gathered in Nicaea was one that had been shaken and wounded by violence and persecution and was therefore close to the suffering of humanity. It was presented with an opportunity for dialogue with the political power which posed difficult choices about how best to share the Good News of the Gospel as faithful disciples of Christ, whose Kingdom is not of this world. In today's polarised world, when trust in the willingness of political powers and authorities, including the Church, to protect the most vulnerable has been undermined, how might a renewal of our commitment to Christian unity contribute to positive change?

Our polarised and fracturing world is in need of a new vision for peace, centred on the recognition of our inter-connectedness and shared humanity. As we gather to mark this anniversary, we have an opportunity to ask the hard questions about what may be getting in the way of our shared identity as Christians and our collective witness to the world. We are reminded of the transformative power of our faith which gives hope in suffering through the promise that all will be renewed in Christ.

Dr Nicola Brady, General Secretary, Churches Together in Britain and Ireland



Gweddï yn y fynachlog yn Bose, llun gan Jim Forest

Eleni, paratowyd y dathliad eciwmenaidd gan gymuned Bose, mynachlog eciwmenaidd o frodyr a chwiorydd yng ngogledd yr Eidal. Yn Bose, mae bywyd y gymuned yn seiliedig ar rythm gweddïo rheolaidd. Wrth i'r clychau alw'r chwiorydd, y brodyr a'r gwesteion i weddïo, maent oll yn ymgynnull yn yr eglwys.

Wrth i ni ddathlu 1,700 o flynyddoedd ers Cyngor Nicea, mae Credo Nicea yn ganolog i'r gwasanaeth hwn. Yng ngoleuni hynny, mae'r darlleniadau o'r ysgrhythur ar gyfer eleni yn canolbwyntio ar gredu.

Yn y gwasanaeth hwn gwahoddir y gymuned a ddaeth ynghyd i fyfrio ar hanes Martha yn proffesu ei ffydd yn Iesu fel y'i hadroddir yn Ioan 11:17-27. Gelwir pawb i ystyried cwestiwn heriol Iesu i Martha: "A wyt ti'n credu hyn?"

Fel ymateb i gyhoeddi'r Gair, byddwn yn cyffesu ein ffydd gyda'n gilydd wrth adrodd yn ddwys Gredo Nicea. Nodir yr ennyd hwnnw drwy rannu

INTRODUCTION TO THE WORSHIP SERVICE



Prayer at the monastery at Bose, photo by Jim Forest

This year the ecumenical celebration has been prepared by the community of Bose, an ecumenical monastery of brothers and sisters in northern Italy. In Bose, community life is shaped by the rhythm of regular prayer. As the bells call the sisters, brothers and guests to prayer, they all assemble at the church.

As we celebrate 1,700 years since the Council of Nicaea, this worship service has at its heart, the Nicene Creed. Reflecting this, the scripture readings for this year focus on belief.

At this service the gathered community is invited to reflect on the story of Martha's confession of faith in Jesus as narrated in *John 11:17-27*. Each is called to sit with Jesus' provocative question to Martha: "Do you believe this?"

As a response to the proclamation of the Word, we affirm our faith together in a solemn recitation of the Nicene Creed. This moment is marked by the sharing of

goleuni Crist, wedi'i symboleiddio gan ganhwyllau wedi'u cynnau. Bydd canhwyllau'n cael eu dosbarthu a bydd y goleuni'n lledaenu drwy'r gynulleidfa. Safwn gyda'n gilydd fel goleuni'r byd, yn unedig mewn cariad, gan gyffesu: "Rydym yn credu..." Ar ôl adrodd y Credo, gosodir y canhwyllau gyda'i gilydd mewn cynhwysydd addas a diogel, i losgi ynghyd i'n hatgoffa o'n galwad barhaus i geisio undod Cristnogol.

Nodwedd arbennig arall o'r addoliad eleni yw cynnwys ysgrifenwyr Cristnogol cynnar, yn fwyaf nodedig yn ystod yr ymbiliau. I chwiorydd a brodyr Bose, mae'r awduron hyn yn ffynonellau byw ar gyfer eu bywyd ynghyd.

Y deunyddiau ar gyfer Diwrnodau'r Wythnos Weddi

Mae'r testunau a ddarparwyd ar gyfer gweddi bersonol ar gyfer pob un o'r wyth diwrnod yn cynnwys dau ddarlleniad o'r Beibl a salm. Mae'r testunau Beiblaidd ar gyfer pob diwrnod yn canolbwyntio yn eu tro ar brif ddatganiadau Credo Nicea.

Diwrnod 1: Tadolaeth a mamolaeth Duw, sy'n rheoli'r bydysawd

Diwrnod 2: Campwaith Duw yn y Greadigaeth

Diwrnod 3: Ymgnewdoliad y Mab

Diwrnod 4: Dirgelwch y Pasg: Ymgnewdoliad, Dioddefaint, Marwolaeth ac Atgyfodiad Iesu

Diwrnod 5: Yr Ysbryd Glân, anadl Duw

Diwrnod 6: Yr Eglwys: cymuned o gredinwyr

Diwrnod 7: Bedydd i Atgyfodiad a Marwolaeth yr Arglwydd

Diwrnod 8: Disgwyl am y Deyrnas

Y fynachlog yn Bose, llun gan Jim Forest



the light of Christ, symbolised by lighted candles. Candles are distributed and the light spreads through the gathering. We stand together as light of the world, united in love, affirming: “We believe...”. At the end of the creed, the lighted candles are placed together in a suitable and safe receptacle, to burn together as a reminder of our continued calling to Christian unity.

Another distinctive feature of this year’s worship is the inclusion of early Christian writers, most notably in the prayers of intercession. For the sisters and brothers of Bose, these writers are a living source for their shared life.

Material for each day of the Week of Prayer

The texts provided for personal or communal prayer for each of the eight days include two scripture readings and a psalm. The biblical texts for each day highlight in turn key statements of the Nicene Creed.

Day 1: The fatherhood and motherhood of God who rules the universe.

Day 2: Creation as God’s work.

Day 3: The Incarnation of the Son.

Day 4: The Paschal Mystery: Passion, Death and Resurrection of Jesus.

Day 5: The Holy Spirit, breath of God.

Day 6: The Church: Community of believers.

Day 7: Baptism into the Death and Resurrection of the Lord.

Day 8: Waiting for the Kingdom.

Monastery at Bose, photo by Jim Forest



Diwrnod 1

Tadolaeth a mamolaeth Duw, sy'n rheoli'r bydysawd

Darlleniadau o'r Beibl

Eseia 63:15-17

Salm 139:1-3,13, 23-24

1 Corinthiaid 8:5-6

Sylwadau

Mae ysgrifenydd canrifoedd cynnar yr Eglwys, a'r Beibl ei hun, yn cydnabod nodweddion Tad a Mam yn Nuw, fel y noda Clement o Alecsandria, un o'r sylwebyddion cynharaf, fod Duw "yn ei drugaredd wedi dod yn fam i ni". Ni allwn wir ddychmygu ehangder y bydysawd, pan fyddai'n cymryd y dull cyflymaf o deithio gallem heddiw ei ddyfeisio bymtheg mil o flynyddoedd i gyrraedd y cysawd serol agosaf at ein haul, ond gallwn ryw ddechrau gwerthfawrogi gwyrth y rhan fach, fach honno o'r bydysawd sy'n gartref i ni. Nid yw popeth o'n cwmipas yn hardd a lliwgar ac rydym ninnau ein hunain wedi anharddu ein daear, ac eto Duw "sy'n ein gwahodd yn barhaus i elwa ar ei gyfoeth ac i gymryd o ddigonedd ei stordy, er mwyn inni ddod yn gyfoethog drwy ei drysorau yn hytrach na chael ein llethu gan

dlodi" (Philocsenus o Mabug). Boed i ni fod yn gyson ymwybodol o'r cyfoeth a ymddiriedwyd i'n gofal ac o'r fraint a'r cyfrifoldeb a ddaw yn sgil y stiwardiaeth honno.

Cwestiynau

1. Sut ydych chi wedi profi gofal tadol a thrugaredd mamol gan Dduw yn eich bywyd eich hun?
2. Beth sy'n ein rhwystro ni rhag cydnabod pob bod dynol yn blentyn i Dduw?
3. Sut mae cydnabod Duw yn Dad pawb yn effeithio ar y ffordd yr edrychwn ar eraill ac ar ein perthynas â rhai'r drws nesaf i ni neu ar gyfandir arall?

Gweddi

Bendithiwn di, O Arglwydd,
Dad y goleuni:
oddi wrthyt ti y deillia popeth da a
phob rhodd berffaith.
Ti a wnaeth y byd a'r hyn oll
sydd ynddo,
ti yw Arglwydd nef a daear.
Creaist yr holl bobloedd sy'n trigo ar
y ddaear.
Ar eu cyfer hwythau fe sefydlaist drefn
amser a ffiniau eu trigfan.
Yng nghalonnau bodau dynol,
plannaist ddyfnder tragwyddoldeb.
Rho i'r undod hwnnw y mae ein
hunanoldeb wedi'i dorri
enedigaeth newydd,
yn dy Eglwys ac yn yr un byd o'n
cwmpas.
Dduw bob cysur,

galwa ni i'th ddilyn
a gwna waith ein dwylo yn gadarn.
Molwn di drwy Iesu Grist, dy
unig Fab,
yng nghymundeb yr Ysbryd Glân.
AMEN.

Myfyrdod

Beth ydi hyn,
hyn i gyd?
Beth ydi "ydi" o gwbl?
Fe wyddost tithau, tra parwn ninnau
i ddyfalu.
Tania ni, yr Ydwyf eithaf,
â rhyfeddod bod
pan fo raid i'n tipyn deall ildio i'th
anweledig.

Ewch a Gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personol: Ystyriwch sut allech chi helpu i adnewyddu'r rhan o'r byd rydych chi'n byw ynddo. Pa weithred fach o wasanaeth neu ofal allech chi ei chyflawni i wneud gwahaniaeth?

Lleol: Sut allech chi weithio gydag eglwysi eraill i arddangos cariad Duw yn eich cymuned? Gwahoddwch eglwysi cyfagos i ystyried y cwestiwn hwn gyda'ch gilydd.

Byd-eang: Ceisiwch gyfleoedd i ddysgu am eich cymdogion byd-eang ac i gysylltu â nhw. Gallai hyn fod drwy gryfhau cysylltiadau rhyngwladol eich eglwys neu drwy fynd i'r afael â materion byd-eang megis yr argyfwng hinsawdd.

Day 1

The fatherhood and motherhood of God who rules the universe

Scripture Readings

Isaiah 63:15-17

Psalm 139:1-3, 13, 23-24

1 Corinthians 8:5-6

Commentary

Ancient writers, and the Bible itself, recognise the qualities of both Father and Mother in God, as Clement of Alexandria, one of the earliest commentators, notes, in God's "compassion he has become for us mother". We cannot truly conceive of the vastness of the universe, when it would take the fastest mode of transport we could now devise fifteen thousand years to reach the nearest star system to our sun, but we can begin to appreciate the miracle of that tiny, tiny part of the universe which we inhabit. Not everything around us is "bright and beautiful" and we ourselves have abused our earth, yet it is God "who continually entreats us to take from his riches and to carry off wealth from his storehouse, that we may be rich

through his treasures and not poverty-stricken" (Philoxenus of Mabbug). May we be constantly mindful of the riches entrusted to us and of the privilege and the responsibility which that stewardship entails.

Questions

1. How have you experienced God's fatherly care and motherly compassion in your own life?
2. What hinders us from recognising each person as a child of God?
3. How does acknowledging God as the Father of all affect our perception of and relationship with others, whether next door or on another continent?

Prayer

We bless you, O Lord, Father of lights:
from you descends every good thing
and every perfect gift.

You have made the world and all that
it contains,
you are the Lord of heaven and earth.
You created all the peoples that dwell
on the earth.

For them you established the order of
time and the boundaries of their
space.

In the heart of human beings, you
have placed the depth of eternity.

Rebirth in us that unity that our
selfishness has fractured
in your Church and in the one world
around us.

God of all consolation,

call us to follow you
and make firm for us the work of
our hands.

We praise you through Jesus Christ,
your only-begotten Son,
in the communion of the Holy Spirit.
AMEN.

Reflection

What is
all this?

What is “is” at all?

You know, as we can only guess.

Enflame us, ultimate I Am, with the
wonder of being

when our understanding must bow to
your beyond.

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personal: Consider how you can help renew the part of the world that you inhabit. What small act of service or care could you undertake to make a difference?

Local: How could you work with other churches to show God’s love in your community? Invite churches near you to explore this question together.

Global: Seek out opportunities to learn about and connect with your global neighbours. This could be through strengthening your church’s international links or engaging with global issues like the climate crisis.

Diwrnod 2

Campwaith Duw yn y Greadigaeth

Darlleniadau o'r Beibl

Genesis 1:1-5

Salm 148:1-14

Rhufeiniaid 8:19-23

Sylwadau

Ysgrifennodd Theoffilus o Antiochia yn yr ail ganrif: “Ni all llygaid dynol weld Duw, ond fe'i gwelwn a'i brofi drwy ei ragluniaeth a'i weithredoedd. Yn yr un modd ag y bydd un sy'n gweld llong llawn hwyliau yn morio i mewn i'r porthladd yn tybio bod ganddi beilot i'w harwain, felly mae'n rhaid i ni ddeall mai Duw yw peilot y bydysawd cyfan, er nad yw'n weladwy i lygaid cnawdol oherwydd ei fod yn annealladwy.” Ysgrifennodd Isaac o Ninefe ganrifoedd yn ddiweddarach mai'r “llyfr cyntaf a roddwyd gan Dduw i fodau rhesymol oedd natur pethau a grëwyd. Ychwanegwyd cyfarwyddyd drwy inc wedi'r camwedd.” Mae'r geiriau hyn rydych chi'n eu darllen yr eiliad hon wedi'u hargraffu mewn inc ar dudalen, neu wedi'u hatgynhyrchu'n electronig ar-lein, ond dim ond yn dila iawn y gallant ddarlunio marc Duw ar y greadigaeth. Os na allwn ryfeddu at waith Duw fel Creawdwr, ni allwn ryfeddu.

Myfyrdod

Wrth i ni feiddio caru bywyd
rhaid i ni adnabod poen,
megis bydd raid i gariad fentro colled.
Fel y bu i dithau, ein Duw, adnabod
cariad coll,
a phrynu ffydd gan frad,
rho i ni'r nerth
i feiddio caru ein gilydd
y tu hwnt i'r gwyll o golli.

Cwestiynau

1. Credwn fod Duw yn bresennol drwy'r holl greadigaeth er bod ei bresenoldeb weithiau'n anodd ei ganfod. Sut mae Duw yn bresennol yn eich profiad chithau o'r greadigaeth?
2. Rhodd Duw, rhodd sy'n dioddef, yw'r greadigaeth, a hynny yn aml o achos gweithredoedd bodau dynol. Sut mae'r eglwysi yn eich cymuned yn gweithio i iacháu clwyfau'r greadigaeth yn eich ardal chi?
3. Sut mae cydnabod Duw'n Greawdwr yn dylanwadu ar eich syniadau am amrywiaeth bywyd dynol?

Gweddi

Molwn di a diolchwn i ti,
Dduw cariad diysgog,
am arwyddion rhyfeddol dy ffafr
a'th drugaredd drwy'r holl greadigaeth.
Gwnaethost bopeth,
a datgan bod pob dim yn dda,
ac rwyt yn caru popeth sy'n dod
â bywyd.
Cyhoeddwn, Arglwydd, dy ogoniant
a welwn yn ehangder serenog y
bydysawd ac yn yr hedyn lleiaf
o fywyd.
Diolchwn i ti am waith dy ddwylo
ac am greu yr holl bobloedd.
Bendigedig wyt ti am yr awyr sy'n rhoi
bywyd i ni.
Bendigedig wyt ti am y ddaear sy'n
ein maethu.

Bendigedig wyt ti am y dŵr sy'n torri
ein syched.
Bendigedig wyt ti am y tân sy'n
ein cynhesu.
Arglwydd Dduw, Dad y goleuni,
nertha ein calonnau mewn disgwyliad
a gobaith
wrth i ni weithio dros undod a
cheisio ynghyd gynghanedd yr
holl greadigaeth.
Gad i ni fod yn llusernau llachar
hyd ddydd dyfodiad dy Fab
mewn gogoniant,
gyda'i holl saint yn y deyrnas
dragwyddol.
Bendigedig wyt ti yn awr ac am byth, a
hyd yn oes oesoedd.
AMEN.

Ewch a Gwnewch

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personol: Meddylwch am ffyrdd creadigol o weddio, drwy gelf, crefft, neu ym myd natur.

Lleol: Chwiliwch am eglwys neu grŵp yn eich ardal sy'n gweithredu i ofalu am y greadigaeth. Canfyddwch sut y gallwch eu helpu.

Byd-eang: Ystyriwch sut y gall eich gweithredoedd chi beri difrod i fyd Duw mewn lleoedd ymhell oddi wrthyhych. Beth allwch chi ei wneud i fynd i'r afael â hynny?

Day 2

Creation as God's work

Scripture Readings

Genesis 1:1-5

Psalms 148:1-14

Romans 8:19-23

Commentary

Theophilus of Antioch wrote in the second century: "God cannot be seen by human eyes, but is seen and perceived through his providence and works. Just as one who sees a fully equipped ship entering port assumes that it has a pilot to guide it, so we must perceive that God is the pilot of the entire universe, even though he is not visible to the eyes of the flesh because he is incomprehensible." Isaac of Nineveh wrote centuries later that the "first book given by God to rational beings is the nature of created things. Instruction by means of ink was added after the transgression." These words that you are now reading are printed in ink on a page, or reproduced electronically online, yet they can only dimly represent the mark of God on creation. If we cannot marvel at God's work as Creator, we cannot marvel.

Reflection

As we dare to love life
we must know pain,
as love means knowing loss.
As you, our God, who has known
lost love
and faith bought by futility,
give us the strength
to dare to love each other
beyond the agony of rejection.

Questions

1. We believe that God is present in all of creation although his presence is sometimes difficult to perceive. How is God present in your experience of creation?
2. Creation is a gift of God subjected to suffering, often inflicted by human beings. How are the churches in your community working to heal the suffering of creation where you are?
3. How does recognising God as Creator influence your view of the diversity of human life?

Prayer

We praise you and give you thanks,
God of steadfast love,
for the great signs of your favour
and your mercy for the whole creation.

You have made all things:

you declared them to be good,
and you love all that brings life.

We proclaim, O Lord, your glory
seen in the immense starry vastness of
the universe and in the smallest
seed of life.

We give thanks for the works of
your hands
and the creation of all people.

Blessed are you for the air that gives
us life.

Blessed are you for the earth that
nourishes us.

Blessed are you for the water that
quenches our thirst.

Blessed are you for the fire that
warms us.

Lord God, Father of lights,
strengthen our hearts in expectation
and hope
as we work for unity and together seek
the harmony of all creation.

Let us be burning lamps,
until the day of the coming of your

Son in glory,
with all his saints in the everlasting
kingdom.

Blessed are you, now and forever, and
to the ages of ages.

AMEN.

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personal: Explore creative ways to pray, through art, craft, or in nature.

Local: Seek out a church or group near you that is taking action to care for the natural world. Find out how you can help them.

Global: Consider how your actions can cause damage to God's world in places far from you. What can you do to address this?

Diwrnod 3

Ymgnavdoliad y Mab

Darlleniadau o'r Beibl

Jeremeia:33:14-16

Salm 72:12-14

Ioan 1:1-14

Sylwadau

“Yn y dechreuad”, dangosodd y Duw sy'n byw mewn perthynas â'r Mab a'r Ysbryd, gariad ei galon at fodau dynol ar ei lun a'i ddelw, â'i anadl yn wefr eu bywyd. Gymaint oedd ei ymrwymiad iddynt na allai hyd yn oed bradwriaeth pechod pobl ei wahanu oddi wrth ei gariad di-ildio tuag at y rhai a greodd. Hebddo, rydym yn colli cyswllt â'r hyn sy'n ein galluogi i fyw bywyd fel y gorau y gallwn fod. Rydym yn colli ein gwir hunaniaeth. Mae'r ffaith i Dduw roi ei Fab dwyfol i uno â ni yn ein dynoliaeth yn dod yn sylfaen diben ein bod.

Ys dywedodd Athanasiws o Alecsandria: “Daeth yn fod dynol, fel y gallem ninnau sy'n marw fel bodau dynol fyw eto, ac na châi marwolaeth deyrnasu arnom mwyach.”

Rhaid i'r weithred frawychus o chwyldroadol hon, os byddwn yn ei derbyn, lywio pob agwedd ar ein bywydau wrth i ni ymdrechu byw

yn unol â meddylfryd Iesu, fel y'i hamlygir drwy'r efengylau. Daeth yr un a'i gwnaeth ei hun yn ddim yn was mewn ufudd-dod i gariad ac mae'n ein galw ni, ei bobl, i'w garu yntau ac eraill yn ddeifiol ac mewn pob mathau o ffyrdd creadigol.

“Daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.” – Ioan 1:14

Myfyrdod

Ai efydd swnnllyd ydw i?
Ai symbal aflafar?
Ydw i'n ddadleugar,
yn boen i berthynas?
Yn cyhuddo?
Barnu?
Ydw i'n ddoeth, yn ei dweud hi fel y mae, yn gwybod popeth?
Ydw i'n rhannu pob cyfoeth?
Ydw i'n ymprydio hyd yr eithaf, bron?
Ydw i'n gwneud popeth ond yn methu â charu?
Cofia hyn, anwylyd,
ble bynnag y gosodi di dy hun,
yn uwch neu'n is,
cei dy ganfod, dy garu,
byddi'n llawenydd,
yn ddiogel y tu hwnt i'th ddychymyg.

Cwestiynau

1. Wrth i ni ddysgu am Iesu drwy ddarllen yr efengylau, pa gamau ydym yn eu cymryd i dyfu i fod 'y gorau y gallwn fod'?
2. Sut ydyn ni'n profi cariad a bywyd Iesu yn ein cymunedau?
3. Sut ydyn ni i weddio gyda Iesu dros anghenion y byd heddiw?

Yn dy wendid bydd dy rym.
Bydd was i fod y gorau gelli fod.
Ym myd y Fi Fawr,
drwy gariad arallfydol y Ceidwad,
cariad Duw mewn cnawd,
bydd yn awen er newid,
wedi dy goncro gan gariad,
cariad chwyldroadol.

*"Cariad yw'r gweithredu mwyaf
chwyldroadol oll,
yr unig beth erioed a newidiodd
unrhyw un."
Ann Voskamp*

Gweddi

Air Duw,
sydd i'n dysgu sut i garu.
bydded i ni ganiatáu i ti rannu yn ein
bywydau ym mhob ffordd.
Arglwydd Dduw, ein Tad,
tyn ein llygaid atat ti
fel y gallwn fel dy bobl
gerdded ynghyd o dywyllwch i
gofleidio goleuni dy wyneb
a ddatguddiwyd i ni yn Iesu,
dy annwyl Fab, ein brawd
a'n Gwardwr,
sy'n byw ar y cyd â thi, ar
dy ddeheulaw,
yn awr a hyd dragwyddoldeb.
AMEN.

Ewch a Gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personol: Myfyriwch ar gyffredinedd dynol bywyd Iesu – teithio, bwyta, siarad, gorffwys. Lle yn eich arferion beunyddiol cyffredin ydych chi'n cwrdd â Iesu?

Lleol: Mae Iesu'n ein galw ni i'w gyfarfod trwy ein cariad a'n gofal dros eraill (Mathew 25:40). Pwy yn eich cymuned sydd angen gofal a sut allwch chi eu helpu?

Byd-eang: Dewiswch dri lle o gwmpas y byd i weddio amdanynt yn rheolaidd. Dysgwch am y lleoedd hynny i lywio'ch gweddïau a'ch gweithredoedd.

Day 3

The Incarnation of the Son

Scripture Readings

Jeremiah 33:14-16

Psalms 72:12-14

John 1:1-14

Commentary

“In the beginning” the God who lives in relationship with the Son and the Spirit, displayed his heart for his beloved image-of-God, likeness-of-God, life-breathed-by-God human beings. Such was his commitment that not even the betrayal of human sin separated him from his unyielding love of those He created. Without him, we find ourselves untethered from that which allows us to live life as our best selves. We lose our true identity. The giving of his divine Son to join us in our humanity becomes our plumb-line of purpose.

“He became human, so that we who die as human beings might live again, and death should no more reign over us.” – *Athanasius of Alexandria*.

This shockingly subversive act, if we receive it, must inform every aspect of our lives as we endeavour to inhabit his mindset, revealed through the gospels. He who made himself nothing

became a servant out of love and calls us, his people, to love him and others dynamically in all manner of creative ways.

“The Word became flesh and made his dwelling among us. We have seen his glory, the glory of the one and only Son, who came from the Father full of grace and truth.” – John 1:14

Reflection

Am I a gong?
Do I clang like a cymbal?
Do I argue,
break relationship?
Accuse?
Judge?
Am I wise, straight speaking and know
all things?
Do I give away everything?
Do I fast almost to death?
Do I do all things
but fail
to love?
Know, dear one,
wherever you place yourself,
above or below,
you are found, loved, rejoiced in
and protected beyond imagination.
It is in weakness you are powerful.
Allow servanthood to display your
best self.

Questions

1. As we learn about Jesus by reading the gospels, what steps are we taking to become our 'best selves'?
2. How do we experience Jesus' love and life in our communities?
3. How do we pray with Jesus for the needs of the world today?

We inhabit a world of overwhelming
"Me, me, I."

Through our Saviour's supernatural
love
made flesh,
become an agent of change,
by delighting in loving.
Such love primes you for subversion.

*"Love is the most radically
subversive activism of all,
the only thing that ever
changed anyone,"
Ann Voskamp*

Prayer

Word of God
to teach us how to love.
May we allow you to share our life in
all things.
Lord God, our Father,
draw our eyes to you
so that together as your people,
we may walk from darkness embracing
the light of your face
revealed to us in Jesus,
your beloved Son, our brother and
Saviour,
who lives alongside You, at your
right hand
now and for eternity. **AMEN.**

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personal: Reflect on the human ordinariness of Jesus' life – his travelling, eating, talking, resting. Where in your ordinary daily routines do you meet Jesus?

Local: Jesus calls us to meet him through our love and care for others (*Matthew 25:40*). Who in your community needs to be cared for and how can you help them?

Global: Choose three places around the world to pray for regularly. Learn about those places to inform your prayers and actions.

DYDDIADAU

Yn draddodiadol, cedwir yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol o 18-25 Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul). Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau yn dewis adegau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig oddeutu'r Pentecost, sy'n ŵyl symbolaidd o safbwynt undod yr eglwys. Penderfynwch chi, gan gymryd sylw o ffactorau lleol. I ganiatáu eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, nodir y defnyddiau ar gyfer y Diwrnodau â'r rhifau 1-8.

TREFN Y GWASANAETH

Gallwch dynnu allan y drefn gwasanaeth yng nghanol y llyfryn a'i llungopïo, os mynnwch. Neu gallwch lawrlwytho'r holl adnoddau oddi ar wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, ac mae croeso i chi eu golygu a'u haddasu at ddefnydd lleol. Cydnabyddwch, os gwelwch yn dda, mai ffynhonnell y deunydd yw Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, adnoddau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol.

WAL UNOD CRISTNOGOL

Os gwelwch yn dda, ychwanegwch fanylion eich digwyddiadau a ffotograffau ohonynt ynghyd â'ch gweddiâu a'ch negeseuon o undod at y "wal" undod Cristnogol ar www.weekofprayer.org drwy eu rhoi ar X (Twitter) gan ddefnyddio hashnod #wpcuwall. Bydd eich trydariadau yn ymddangos yn awtomatig (ar ôl oedi byr).

CYDNABYDDIAETH AM FFOTOGRAFFAU

Mae'r llun ar y clawr wedi'i drwyddedu i'w ddefnyddio gan eglwysi neu grwpiau sy'n addasu ein deunyddiau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2025, a hefyd y rhai sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i'n hadnoddau. Cynhwyswch gydnabyddiaeth fel isod, os gwelwch yn dda:

Llun clawr, t23 a 24-43: Leo Lintang / Alamy Stock Photo.

T2, 3, 6, 7, 8 a 9: Jim Forest, defnyddiwyd gyda chaniatâd.

T44: Pixabay / Pexels.

Clawr cefn: Flickr / L.C. Nøttaasen.

YR WYTHNOS WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL 2025

TREFN ADDOLIAD

A wyt ti'n
credu
hyn?



DO YOU BELIEVE THIS?

WEEK OF PRAYER FOR CHRISTIAN UNITY

© Churches Together in Britain and Ireland



CANLLAWIAU I'R RHAI SY'N PARATOI'R ADDOLIAD

Eleni, paratowyd y dathliad eciwmenaidd gan gymuned Bose, mynachlog eciwmenaidd o frodyr a chwiorydd yng ngogledd yr Eidal. Yn Bose, mae bywyd y gymuned yn seiliedig ar rythm gweddio reolaidd. Wrth i'r clychau alw'r chwiorydd, y brodyr a'r gwesteion i weddio, maent oll yn ymgynnull yn yr eglwys.

Wrth i ni ddathlu 1,700 o flynyddoedd ers Cyngor Nicea, mae Credo Nicea yn ganolog i'r gwasanaeth hwn. Yng ngoleuni hynny, mae'r darlenniadau o'r ysgrythur ar gyfer eleni yn canolbwyntio ar gredu.

Yn y gwasanaeth hwn gwahoddir y gymuned a ddaeth ynghyd i fyfyrion ar hanes Martha yn proffesu ei ffydd yn Iesu fel y'i hadroddir yn Ioan 11:17-27. Gelwir pawb i ystyried cwestiwn heriol Iesu i Martha: "A wyt ti'n credu hyn?"

Fel ymateb i gyhoeddi'r Gair, byddwn yn cyffesu ein ffydd gyda'n gilydd wrth adrodd yn ddwys Gredo Nicea. Nodir yr ennyd hwnnw drwy rannu goleuni Crist, wedi'i symboleiddio gan ganhwyllau wedi'u cynnau. Bydd canhwyllau'n cael eu dosbarthu a bydd y goleuni'n lledaenu drwy'r gynulleidfa. Safwn gyda'n gilydd fel goleuni'r byd, yn unedig mewn cariad, gan gyffesu: "Rydym yn credu..." Ar ôl adrodd y Credo, gosodir y canhwyllau gyda'i gilydd mewn cynhwysydd addas a diogel, i losgi ynghyd i'n hatgoffa o'n galwad barhaus i geisio undod Cristnogol.

Nodwedd arbennig arall o'r addoliad eleni yw cynnwys ysgrifenydd Cristnogol cynnar, yn fwyaf nodedig yn ystod yr ymbiliau. I chwiorydd a brodyr Bose, mae'r awduron hyn yn ffynonellau byw ar gyfer eu bywyd ynghyd.

GUIDANCE FOR THOSE PREPARING THE WORSHIP

This year the ecumenical celebration has been prepared by the community of Bose, an ecumenical monastery of brothers and sisters in northern Italy. In Bose, community life is shaped by the rhythm of regular prayer. As the bells call the sisters, brothers and guests to prayer, they all assemble at the church.

As we celebrate 1,700 years since the Council of Nicaea, this worship service has, at its heart, the Nicene Creed. Reflecting this, the scripture readings for this year focus on belief.

At this service the gathered community is invited to reflect on the story of Martha's confession of faith in Jesus as narrated in John 11:17-27. Each is called to sit with Jesus' provocative question to Martha: "Do you believe this?"

As a response to the proclamation of the Word, we affirm our faith together in a solemn recitation of the Nicene Creed. This moment is marked by the sharing of the light of Christ, symbolised by lighted candles. Candles are distributed and the light spreads through the gathering. We stand together as light of the world, united in love, affirming: "We believe...". At the end of the creed, the lighted candles are placed together in a suitable and safe receptacle, to burn together as a reminder of our continued calling to Christian unity.

Another distinctive feature of this year's worship is the inclusion of early Christian writers, most notably in the prayers of intercession. For the sisters and brothers of Bose, these writers are a living source for their shared life.

Wrth i aelodau'r gynulleidfa gyrraedd, rhoddir kannwyll (heb ei chynnau) i bawb.

Gwahoddiad

Arweinydd

Saith can mlynedd yn ôl, ar ôl cyfnod hir o erledigaeth ac ofn, ymgynullodd yr Eglwys yn Nicea i gadarnhau'r ffydd Gristnogol.

Y ffydd hon, bob amser yn hen, bob amser yn newydd, yw ein llawenydd diddiwedd.

Cododd Crist o'r bedd, gan drechu marwolaeth a thywyllwch, a dod â bywyd tragwyddol inni!

Arweinydd

Bendigedig fyddo Duw, yn awr a hyd byth.

Dewch, ymgrymwn gerbron yr Arglwydd ein Duw.

Cynulleidfa

Dduw Sanctaidd, Sanctaidd a Chadarn, Sanctaidd ac Anfeidrol, trugarha wrthym.

Arweinydd

Dathlwn lawenydd yr atgyfodiad.

Emyn neu gân yn dathlu'r atgyfodiad

Arweinydd

Gweddiwn.

Dduw'r Creawdwr, addolwn di a'th ogoneddu.

Gan sefyll gyda'r holl greadigaeth, gwyddom i ni gael ein creu er dy ogoniant.

Gan adlewyrchu dy ddull a'th ddelw, teimlwn dy gyffyrddiad ar ein bywydau.

Gan gofio dy ffyddlondeb, bendithiwn di na fyddi byth yn anobeithio ynom.

Gan glywed dy alwad arnom, mewn stori, a thrwy saint a doethion yr Eglwys,

bendithiwn di am dy bresenoldeb ysgogol yn ein plith.

As the congregation arrives, everyone is given a candle (unlit).

Invitation

Leader Seventeen-hundred years ago, after a long period of persecution and fear, the Church gathered in Nicaea to affirm the Christian faith.

This faith, always ancient, always new, is our unending joy. Christ has risen from the grave, defeating death and darkness and bringing us everlasting life!

Leader Blessed be God, now and forever.
Come, let us bow down before the Lord our God.

Assembly **Holy God, Holy and Strong, Holy and Immortal,
have mercy on us.**

Leader Let us celebrate the joy of the resurrection.

A resurrection hymn or song

Leader Let us pray.

Creator God, we worship and adore you.
Standing with all creation, we know ourselves to be
made for your glory.
Reflecting your image and likeness, we feel your touch
upon our lives.
Remembering your faithfulness, we bless you that you
never give up on us.
Hearing your call to us, through story, saint and sage,
we bless you for your compelling presence in our midst.

Arglwydd bywyd, addolwn di a'th ogoneddu.
Gan sefyll wrth dy fedd, gyda Mair, rydym yn wylo.
A ninnau heb dy adnabod, fe'th glywn yn ein galw wrth
ein henwau.

Gan dy adnabod drachefn, rydym am lynu wrthyt.
Yn dy gariad tyner, rwyt ti'n ein hadfer ni
ac yn ein cymell i alw eraill i fywyd yn dy enw di.

Ysbryd gallu a nerth, addolwn di a'th ogoneddu.
Wrth gofio hanes y greadigaeth, teimlwn wefr dy
bresenoldeb.
Wrth deithio o gaethiwed, dilynwn di tua rhyddid.
Gan sefyll gerbron y groes, ceisiwn di yn y tywyllwch.
Gan losgi â'th dân di ynom, ni allwn ddianc rhag ein galwad
i'th waith.

Dduw'r creawdwr, Arglwydd bywyd, Ysbryd gallu a nerth,
addolwn di a'th ogoneddu.

Cynulleidfa

Amen.

Gwrando ar Air Duw

Darlleniad Myfyrgar (ar gyfer tri llais)

Ioan 11:17-2

Darllenydd 1

Pan gyrhaeddodd yno, cafodd Iesu fod Lasarus eisoes yn ei fedd ers pedwar diwrnod. Yr oedd Bethania yn ymyl Jerwsalem, ryw dri chilomedr oddi yno. Ac yr oedd llawer o'r Iddewon wedi dod at Martha a Mair i'w cysuro ar golli eu brawd.

(Tawelwch)

Lord of life, we worship and adore you.
Standing at your tomb, with Mary, we weep.
Failing to know you, we hear you call us by name.
Knowing you again, we want to cling to you.
In your gentle love, you restore us
and compel us to call others to life in your name.

Spirit of power, we worship and adore you.
Recalling creation's story, we feel your brooding presence.
Travelling from slavery, we follow you into freedom.
Standing before the cross, we seek you in the darkness.
Burning with your fire, we are compelled
to discipleship.

Creator God, Lord of Life, Spirit of power,
We worship and adore you,

Assembly

Amen.

Listening to the Word of God

Meditative Reading (for three voices)

John 11:17-27

Reader 1

When Jesus arrived, he found that Lazarus had already been in the tomb four days. Now Bethany was near Jerusalem, some two miles away, and many of the Jews had come to Martha and Mary to console them about their brother.

(Silence)

Darllenydd 2 Pan glywodd Martha fod Iesu yn dod, aeth i'w gyfarfod; ond eisteddodd Mair yn y tŷ. Dywedodd Martha wrth Iesu, "Pe buasit ti yma, syr, ni buasai fy mrawd wedi marw. A hyd yn oed yn awr, mi wn y rhydd Duw i ti beth bynnag a ofynni ganddo."

(Tawelwch)

Darllenydd 3 Dywedodd Iesu wrthi, "Fe atgyfoda dy frawd." "Mi wn," meddai Martha wrtho, "y bydd yn atgyfodi yn yr atgyfodiad ar y dydd olaf." Dywedodd Iesu wrthi, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth. A wyt ti'n credu hyn?" "Ydwyf, Arglwydd," atebodd hithau, "yr wyf fi'n credu mai tydi yw'r Meseia, Mab Duw, yr Un sy'n dod i'r byd."

(Tawelwch)

Darllenydd 1 A ydych chithau'n credu hyn?

(Tawelwch)

Darllenydd 2 A ydych chithau'n credu hyn?

(Tawelwch)

Darllenydd 3 A ydych chithau'n credu hyn?

Cynulleidfa Yr ydym yn credu; helpa ni yn ein diffyg ffydd.

Reader 2

When Martha heard that Jesus was coming, she went and met him, while Mary stayed at home. Martha said to Jesus, "Lord, if you had been here, my brother would not have died. But even now I know that God will give you whatever you ask of him."

(Silence)

Reader 3

Jesus said to her, "Your brother will rise again." Martha said to him, "I know that he will rise again in the resurrection on the last day." Jesus said to her, "I am the resurrection and the life. Those who believe in me, even though they die, will live, and everyone who lives and believes in me will never die. Do you believe this?" She said to him, "Yes, Lord, I believe that you are the Messiah, the Son of God, the one coming into the world."

(Silence)

Reader 1

Do you believe this?

(Silence)

Reader 2

Do you believe this?

(Silence)

Reader 3

Do you believe this?

Assembly

We believe, help our unbelief.

Darllenïad o'r Efengyl

Ioan 20:24-29

Nid oedd Thomas, a elwir Didymus, un o'r Deuddeg, gyda hwy pan ddaeth Iesu atynt. Ac felly dywedodd y disgyblion eraill wrtho, "Yr ydym wedi gweld yr Arglwydd." Ond meddai ef wrthynt, "Os na welaf ôl yr hoelion yn ei ddwylo, a rhoi fy mys yn ôl yr hoelion, a'm llaw yn ei ystlys, ni chredaf fi byth".

Ac ymhen wythnos, yr oedd y disgyblion unwaith eto yn y tŷ, a Thomas gyda hwy. A dyma Iesu'n dod, er bod y drysau wedi eu cloi, ac yn sefyll yn y canol a dweud, "Tangnefedd i chwi!" Yna meddai wrth Thomas, "Estyn dy fys yma. Edrych ar fy nwylo. Estyn dy law a'i rhoi yn fy ystlys. A phaid â bod yn anghredadun, bydd yn gredadun." Atebodd Thomas ef, "Fy Arglwydd a'm Duw!" Dywedodd Iesu wrtho, "Ai am i ti fy ngweld i yr wyt ti wedi credu? Gwyn eu byd y rhai a gredodd heb iddynt weld."

Mawl Ymatebol

Darllenwydd Mawr yw'r Arglwydd, mawr yw ei nerth.

Cynulleidfa Mawr yw'r Arglwydd, mawr yw ei nerth.

Darllenwydd Nid oes ffiniau i'w ddoethineb.

Cynulleidfa Mawr yw ei nerth.

Darllenwydd Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân.

Cynulleidfa Mawr yw'r Arglwydd, mawr yw ei nerth.

Tawelwch/Emyn

Gospel Reading

John 20:24-29

Thomas (who was called the Twin), one of the twelve, was not with them when Jesus came. So the other disciples told him, “We have seen the Lord”. But he said to them, “Unless I see the mark of the nails in his hands, and put my finger in the mark of the nails and my hand in his side, I will not believe”.

A week later his disciples were again in the house, and Thomas was with them. Although the doors were shut, Jesus came and stood among them and said, “Peace be with you”. Then he said to Thomas, “Put your finger here and see my hands. Reach out your hand and put it in my side. Do not doubt but believe”. Thomas answered him, “My Lord and my God!” Jesus said to him, “Have you believed because you have seen me? Blessed are those who have not seen and yet have come to believe.”

Responsory

Reader Great is the Lord, great is his might.

Assembly **Great is the Lord, great is his might.**

Reader His wisdom has no bounds.

Assembly **Great is his might.**

Reader Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit.

Assembly **Great is the Lord, great is his might.**

Silence/Hymn

Pregeth

Tawelwch/Emyn/Egwyl Gerddorol

Dathlu ein Ffydd Gyffredin

Arweinydd

Dywedodd Iesu, “Myfi yw goleuni'r byd.”
Mewn llawer o draddodiadau Cristnogol, adeg bedydd,
bydd y sawl a fedyddir (neu riant bedydd) yn derbyn
cannwyll oleuedig. Mae Iesu hefyd yn galw ar ei ddilynwyr i
fod yn oleuni'r byd. Rydym oll yn cludo goleuni'r Crist
atgyfodedig. Rydym yn derbyn y goleuni hwn oddi wrth
Grist drwy Gristnogion eraill.

*Mae'r Arweinydd yn goleuo'r gannwyll gyntaf ac yn rhannu'r fflam gyda'r rhai
gerllaw, sydd yn eu tro yn rhannu'r goleuni drwy'r gynulleidfa.*

Arweinydd

Gwahoddir chi yn awr i rannu'r goleuni gyda'ch gilydd
gyda'r geiriau, **“Goleuni Crist”**.

Pan fydd yr holl ganhwyllau wedi'u cynnau, mae'r Arweinydd yn mynd rhagddo:

Arweinydd

Gadewch i ni garu ein gilydd, er mwyn i ni ag undod
meddwl, gyffesu ffydd yr Eglwys, hen a newydd:

Cynulleidfa

Credwn yn un Duw,
Y Tad hollalluog,
gwneuthurwr nef a daear,
a phob peth gweledig ac anweledig.
Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist,
unig Fab Duw,
a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,

Sermon

Silence/Hymn/Musical Interlude

Celebrating Our Common Faith

Leader

Jesus said, “I am the light of the world.”

In many Christian traditions, at baptism, the baptised (or sponsor) is handed a lighted candle. Jesus also calls his followers to be the light of the world. We are each bearers of the light of the risen Christ. We receive this light from Christ through one another.

The Leader lights the first candle and shares the light with those nearby, who in turn share the light throughout the assembly.

Leader

We now invite you to share the light with one another with the words, **“The light of Christ”**.

When all the candles have been lit, the Leader continues:

Leader

Let us love one another, so that with oneness of mind, we may confess the faith of the Church, ancient and new:

Assembly

**We believe in one God,
the Father, the Almighty,
maker of heaven and earth,
of all that is, seen and unseen.
We believe in one Lord, Jesus Christ,
the only Son of God,
eternally begotten of the Father,**

Llewyrch o Lewyrch,
gwir Dduw o wir Dduw,
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,
yn un hanfod â'r Tad,
a thrwyddo ef y gwnaed pob peth:
yr hwn er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth
a ddisgynnodd o'r nefoedd,
ac a wnaed yn gnawd trwy'r Ysbryd Glân
o Fair Forwyn,
ac a wnaethpwyd yn ddyn,
ac a groeshoeliwyd hefyd drosom dan Pontius Pilat.
Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.
Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,
ac esgynnodd i'r nef,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.
A daw drachefn mewn gogoniant
i farnu'r byw a'r meirw:
ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.
Credwn yn yr Ysbryd Glân,
yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,
sy'n deillio o'r Tad,
yr hwn gyda'r Tad a'r Mab
a gydaddolir ac a gydogoneddir,
ac a lefarodd trwy'r proffwydi.
Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig.
Cydnabyddwn un Bedydd er maddeuant pechodau.
A disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,
a bywyd y byd sydd i ddyfod.
Amen.

Ar ôl adrodd y Credo gosodir y canhwyllau mewn lleoliad canolog, tra cenir emyn, cân neu gorgan addas.

Light from Light,
true God from true God,
begotten, not made;
of one Being with the Father.
Through him all things were made.
For us all, and for our salvation
he came down from heaven;
and was incarnate of the Holy Spirit and the
Virgin Mary,
and was made human.
For our sake he was crucified under Pontius Pilate;
he suffered and was buried.
On the third day he rose from the dead in accordance
with the scriptures.
He ascended to heaven
and is seated at the right hand of the Father.
He will come again in glory
to judge the living and the dead
and his kingdom will have no end.
We believe in the Holy Spirit,
the Lord, the giver of life,
who proceeds from the Father.
Who, with the Father and the Son,
is worshipped and glorified,
who has spoken through the Prophets.
We believe in one, holy, catholic and apostolic Church.
We confess one baptism for the forgiveness of sins.
We look forward to the resurrection of the dead,
and to life in the age to come.
Amen.

At the conclusion of the Creed the candles are placed in a central location, during which a suitable hymn, song or chant is sung.

Ymbiliau

- Arweinydd** Yn ein hymbiliau byddwn yn uno'n gweddïau heddiw â ffydd yr Eglwys yn y canrifoedd pell.
- Darllenydd 1** Oherwydd o ddim y gwnaed popeth, a byddai eu bodolaeth yn suddo'n ddim eto, pe na bai Awdur pob peth yn ei chynnal trwy lywodraeth ei law.
(*Grigor Fawr [c. 540-604]*)
- Cynulleidfa** Arglwydd bywyd, o'th law a thrwy dy ragluniaeth yr ydym yn derbyn yr holl greadigaeth. Dysga ni i fyw yn dy fyd yn ofalgar gan geisio cyfiawnder ar gyfer popeth a greaist.
- Darllenydd 2** Hyn a alwaf yn ffydd: y goleuni eglur sydd trwy ras yn gwawrio yn yr enaid, sy'n cynnal y galon, ac sy'n cynnig rhodd gobaith.
(*Isaac o Ninefe [Seithfed ganrif]*)
- Cynulleidfa** Dduw cariadus, caniatâ inni rodd gobaith yn hael mewn byd y mae ymraniadau a thrais yn ei flino. Nertha'r rhai ymhlith dy bobl y mae difaterwch ac ofn yn eu llethu.
- Darllenydd 1** Pa ryfedd wedyn, os, wrth nesáu at Dduw, ein bod yn gyntaf oll yn proffesu ein bod yn credu, gan weld nad oes modd heb hynny fyw hyd yn oed fywyd cyffredin.
(*Ruffin o Acwileia [c. 344-411]*)
- Cynulleidfa** Dduw trugarog, maddau inni am yr adegau rydym wedi methu â byw bywyd cyffredin fel Cristnogion. Tyn ni yn ddyfnach at ffydd unol ynot ti, er mwyn i ni allu tystiolaethu i'r byd.
- Darllenydd 2** Mae gwirionedd yn gweld Duw, a doethineb yn myfyrio ar Dduw, ac o'r ddeubeth hyn daw trydydd, sef ymhyfrydu sanctaidd a rhyfeddol yn

Prayers of Intercession

Leader In this time of intercession we join our prayers in the present with the faith of the Church in ancient times.

Reader 1 For all things were made out of nothing, and their being would again sink into nothing, if the Author of all things did not hold it by the hand of governance.
(*Gregory the Great [c. 540-604]*)

Assembly **Lord of life, we receive all creation from your hand and by your providence. Teach us to live in your world with care and seeking justice for all that you have created.**

Reader 2 I call this faith: the intelligible light which by grace dawns in the soul, that supports the heart, and grants the gift of hope.
(*Isaac of Nineveh [7th century]*)

Assembly **Loving God, grant us the gift of hope in abundance in a world troubled by division and violence. Strengthen your people afflicted by apathy and fear.**

Reader 1 What wonder then, if, coming to God, we first of all profess that we believe, seeing that, without this, not even common life can be lived.
(*Rufinus of Aquileia [c. 344-411]*)

Assembly **Merciful God, forgive us for the times we have failed to live a common life as Christians. Draw us more deeply to one faith in you so that we may witness to the world.**

Reader 2 Truth sees God, and wisdom contemplates God, and from these two comes a third, a holy and wonderful delight in

Nuw, hanfod cariad.

(Iwlian o Norwich [c.1343- hyd ar ôl 1416])

Cynulleidfa

Ddiddanydd nefol, gweddiwn y gallwn ymddiried yn fwy yn rhoddion dy wirionedd, dy ddoethineb a'th gariad nag yng nghlyfrwch ein meddyliau ninnau.

Darllenydd 1

Ymddangosodd goleuni Crist a gwnaeth i dywyllwch y carchar ddiflannu, gan gysegru ein genedigaeth a dinistrio marwolaeth, a chan ein rhyddhau o'r llyffetheiriau a fu'n ein caethiwo.

(Irenaeus o Lyon [c. 135-198])

Cynulleidfa

Arglwydd trugarog, arwain ni i weithio gyda'n gilydd fel y gallwn ddod â'th oleuni a'th ryddid lle bynnag y bo tywyllwch a gorthrwm, dioddefaint ac anghyfiawnder.

Arweinydd

Fel brodyr a chwirydd Iesu, gweddiwn gyda'n gilydd yn y geiriau a ddysgodd yntau i ni:

Cynulleidfa

Ein Tad...

Emyn

Gweddi i Gloi

(addasiad o un o weddiâu cymuned Bose)

Arweinydd

Hollalluog Dduw,
derbyn ein mawl a'n diolchgarwch
am yr hyn sydd eisoes yn ein huno.
Prysurar awr pan fyddwn yn cydnabod ein gilydd
yn y cymundeb unedig yr ewyllysiaist ti

God, who is love.
(*Julian of Norwich [c.1343- after 1416]*)

Assembly **Heavenly Comforter, we pray that we may trust more in the gifts of your truth, wisdom and love than in the cleverness of our thinking.**

Reader 1 The light of Christ appeared and made the darkness of the prison disappear and hallowed our birth and destroyed death, loosing those same fetters in which we were enchained.
(*Irenaeus of Lyon [c. 135-198]*)

Assembly **Compassionate Lord, lead us to work together so that wherever there is darkness and oppression, suffering and injustice, we may bring your light and freedom.**

Leader As brothers and sisters of Jesus, together we pray in the words he taught us:

Assembly **Our Father...**

Hymn

Concluding Prayer

(adapted from the Bose community)

Leader Almighty God,
accept our praise and thanksgiving
for what already unites us.
Hasten the hour when we will recognise each other
in the one communion you willed

ac y gweddiodd dy Fab amdano.
Bendigedig fyddo Duw, yn awr a hyd byth.

Cynulleidfa

Amen.

Yr Anfon Allan

Darllenydd 1

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist!
O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni ni o'r newydd i
obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw,
i etifeddiaeth na ellir na'i difrodi, na'i difwyno, na'i difa.
Saif hon ynghadw yn y nefoedd i chwi, chwi sydd trwy ffydd
dan warchod gallu Duw hyd nes y daw iachawdwriaeth, yr
iachawdwriaeth sydd yn barod i'w datguddio yn yr amser
diwethaf. Yn wyneb hyn yr ydych yn gorfoleddu, er eich bod,
fe ddichon, yn awr yn profi blinder dros dro dan amrywiol
brofedigaethau. Y mae hyn wedi digwydd er mwyn i
ddilysrwydd eich ffydd chwi, sy'n fwy gwerthfawr na'r aur
sy'n darfod—ac y mae hwnnw'n cael ei brofi trwy dân—
gael ei amlygu er mawl a gogoniant ac anrhydedd pan
ddatguddir Iesu Grist. Yr ydych yn ei garu ef, er na welsoch
mohono; ac am eich bod yn awr yn credu ynddo heb ei weld,
yr ydych yn gorfoleddu â llawenydd anhraethadwy a
gogoneddus wrth ichwi fedi ffrwyth eich ffydd, sef
iachawdwriaeth eich eneidiau. (*1 Pedr 1: 3 – 9*)

Arweinydd

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

Cynulleidfa

A hefyd gyda thi.

Arweinydd

Bydded i'r hwn sydd i ni'n dangnefedd ac a'n gwnaeth yn un
ein galluogi i gyflwyno'n gilydd i Dduw yn yr un Ysbryd.
A bendith Duw...

Cynulleidfa

Amen.

and for which your Son prayed.
Blessed be God, now and forever.

Assembly

Amen.

Sending Forth

Reader 1

Blessed be the God and Father of our Lord Jesus Christ!
By his great mercy he has given us a new birth into a living hope through the resurrection of Jesus Christ from the dead, and into an inheritance that is imperishable, undefiled, and unfading, kept in heaven for you, who are being protected by the power of God through faith for a salvation ready to be revealed in the last time. In this you rejoice, even if now for a little while you have had to suffer various trials, so that the genuineness of your faith—being more precious than gold that, though perishable, is tested by fire—may be found to result in praise and glory and honour when Jesus Christ is revealed. Although you have not seen him, you love him; and even though you do not see him now, you believe in him and rejoice with an indescribable and glorious joy, for you are receiving the outcome of your faith, the salvation of your souls. (*1 Peter 1:3–9*)

Leader

The Lord be with you.

Assembly

And also with you.

Leader

May he who is our peace and has made us one,
grant that we may present one another to God in the
one Spirit.
And the blessing of God...

Assembly

Amen.

NODYN YNGHYLCH Y FERSIWN O'R CREDO A GYNHWYSIR YN YR ADNODDAU HYN:

Testun y Credo a gynhwysir yn y drefn addoliad yw'r fersiwn o Gredo Nicea-Caer Gystennin a ddefnyddir fel arfer yn ystod Cymanfaoedd Cyffredinol Cyngor Eglwysîr Byd a digwyddiadau eciwmenaidd eraill.

Wrth gyfeirio at yr Ysbryd Glân, mae'n hepgor yr hyn y cyfeirir ato fel y cymal filioque – “a'r Mab” – yn dilyn y cymal “sy'n deillio o'r Tad”. Ni chynhwyswyd y cymal hwn yn nhestun y Credo fel y'i mabwysiadwyd yng Nghyngor Nicea (325) na Chyngor Caer Gystennin (381), ond fe'i hychwanegwyd yn y Gorllewin i bwysleisio duwdod y Mab yn wyneb yr heresi Ariaidd. Bu ei gynnwys yn achos anghydfod rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin am ganrifoedd lawer a bu'n bwnc trafodaethau eciwmenaidd pwysig yn ystod y degawdau diweddar. Mae'r testun hefyd yn hepgor y cymal Deum de Deo – “Duw o Dduw” – wrth gyfeirio at y Mab, a gynhwyswyd yn y Credo yn Nicea ond a gafodd ei hepgor yn y fersiwn a fabwysiadwyd yng Nghaer Gystennin yn 381.

Ym 1981, gwnaeth adroddiad gan Gomisiwn Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysîr Byd, y mae'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn aelod llawn ohono, yr argymhelliad hwn: “Dylid cydnabod ffurf wreiddiol trydedd erthygl y Credo, heb y filioque, ym mhobman fel yr un arferol a'i hadfer, fel y gall yr holl Gristnogion, yn y geiriau hyn, gyffesu eu ffydd gyffredin yn yr Ysbryd Glân”.¹ Tra erys y cymal filioque yn rhan o draddodiad litwrgaidd yr Eglwys Ladinaidd a rhai Eglwysi Gorllewinol, mae Esgobion Rhufain yn ei hepgor wrth adrodd y Credo pan fyddant yn cyfarfod yn eciwmenaidd ag arweinwyr yr Eglwysi Dwyreiniol. Mae dogfen a gyhoeddwyd gan y Fatican ym 1995 yn datgan: “Mae'r Eglwys Gatholig yn cydnabod gwerth anhepgor, yn gynghoraidd, eciwmenaidd, ac fel arferiad cyffredin, y Symbol a broffeswyd yn yr iaith Roeg gan yr Ail Gyngor Eciwmenaidd yng Nghaer Gystennin yn y flwyddyn 381. Ni all yr un gyffes ffydd sy'n perthyn i unrhyw draddodiad litwrgaidd penodol wrthddweud y mynegiant hwn o ffydd y bu'r Eglwys anrhanedig yn ei ddysgu ac yn ei broffesu.”²

¹ WCC Faith & Order Paper 103, *Spirit of God, Spirit of Christ: Ecumenical Reflections on the Filioque Controversy* (1981) (cyfieithwyd).

² Pontifical Council for Promoting Christian Unity, *The Greek and Latin Traditions regarding the Procession of the Holy Spirit* (1995) (cyfieithwyd).

A NOTE ABOUT THE VERSION OF THE CREED INCLUDED IN THESE RESOURCES:

The text of the Creed included in the worship service is the version of the Nicene-Constantinopolitan Creed normally used during General Assemblies of the World Council of Churches and other ecumenical events.

In referring to the Holy Spirit, it omits the so-called filioque clause – “and the Son” – after the phrase “who proceeds from the Father”. This clause was not included in the text of the Creed adopted at the Council of Nicaea (325) or at the Council of Constantinople (381), but was added in the West in the sixth century, so as to underline the divinity of the Son in the face of the Arian heresy. Its inclusion has been the cause of dispute between East and West for many centuries and has been the subject of important ecumenical discussions in recent decades. The text also omits the *Deum de Deo* clause – “God from God” – in referring to the Son, which was included in the Creed at Nicaea but omitted from the version adopted at Constantinople in 381.

A 1981 report of the Faith and Order Commission of the World Council of Churches, of which the Roman Catholic Church is a full member, recommended: “That the original form of the third article of the Creed, without the filioque, should everywhere be recognised as the normative one and restored, so that the whole Christian people may be able, in this formula, to confess their common faith in the Holy Spirit”.¹ While the filioque clause remains part of the liturgical tradition of the Latin and some other Western Churches, Bishops of Rome omit it when reciting the Creed in ecumenical encounters with leaders of Eastern Churches. A 1995 Vatican document declared: “The Catholic Church acknowledges the conciliar, ecumenical, normative and irrevocable value, as expression of the one common faith of the Church and of all Christians, of the Symbol professed in Greek at Constantinople in 381 by the Second Ecumenical Council. No profession of faith peculiar to a particular liturgical tradition can contradict this expression of the faith taught and professed by the undivided Church.”²

¹ WCC Faith & Order Paper 103, *Spirit of God, Spirit of Christ: Ecumenical Reflections on the Filioque Controversy* (1981).

² Pontifical Council for Promoting Christian Unity, *The Greek and Latin Traditions regarding the Procession of the Holy Spirit* (1995).



Daw'r dyfyniadau Ysgrythurol o'r Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig, Hawlfraint
© 2004 gan Gymdeithas y Beibl. Defnyddiwyd gyda chaniatâd Cymdeithas y Beibl. Cedwir pob
hawl ledled y byd.

Cydnabyddiaeth am ffotograffau:

Llun clawr a t24-43: Leo Lintang / Alamy Stock Photo.

Clawr cefn: Pixabay / Pexels

Bible verses from the New Revised Standard Version Bible: Anglicized Edition,
copyright 1989, 1995, Division of Christian Education of the National Council of
the Churches of Christ in the United States of America. Used by permission.

All rights reserved.

Photo credits:

Cover photo and p24-43: Leo Lintang / Alamy Stock Photo.

Back cover: Pixabay / Pexels

DATES

The Week of Prayer for Christian Unity is traditionally observed from 18th to 25th January (the octave of St Peter and St Paul). However, some groups choose other times of the year, particularly around Pentecost which is a symbolic date for the unity of the Church. Do make your own decision, taking local factors into account. To allow for use at any time in the year, the Days material uses the notation 1-8.

ORDER OF SERVICE

The order of service in the centre of the pamphlet can be pulled out and photocopied if you wish. Alternatively, all resources can be downloaded from the CTBI website and you are welcome to further edit or adapt them for local use. Please acknowledge the source of material as Churches Together in Britain and Ireland, Week of Prayer for Christian Unity resources.

CHRISTIAN UNITY WALL

Please add details and photos of your events, prayers and messages of unity to the Christian unity “wall” at weekofprayer.org by posting to Twitter using the #wpcuwall hashtag. Posts appear automatically (after a slight delay).

PHOTO CREDITS

The cover photo is licensed for use by churches and groups that adapt our material for the Week of Prayer for Christian Unity 2025, and also those that publicise our resources. Please include a credit as below:

Cover photo, p23 and p24-43: Leo Lintang / Alamy Stock Photo.

P2, 3, 6, 7, 8 and 9: Jim Forest, used with permission.

P44: Pixabay / Pexels.

Back cover: Flickr / L.C. Nøttaasen.

Diwrnod 4

Dirgelwch y Pasg: Ymg nawdoliad, Dioddefaint, Marwolaeth ac Atgyfodiad Iesu

Darlleniadau o'r Beibl

Philipiaid 2:8-9

Exodus 3:1-6

Eseia 9:6-7

Sylwadau

Yn y credo cyfeiriwn at ddynoliaeth Crist, at Grist yn ei ddarostwng ei hun, hyd yn oed hyd at farwolaeth ar groes. Er mor anghyfforddus y gallai hynny fod, yn enwedig mewn dyddiau lle'r aeth iechyd yn obsesiwn, bu marwolaeth bob amser yn rhan o'r traddodiad a'r drafodaeth Gristnogol. Wedi'r cyfan, mae bod yn fod dynol yn brofiad blêr: rydyn ni'n gwneud camgymeriadau; rydym yn dysgu bod i'n cyrrff derfynau a gwendidau; rydym yn brifo eraill; rydym yn marw. Mae gwaith achubol Crist ar y Groes yn dinistrio marwolaeth ac yn cynnig yr addewid o fywyd tragwyddol gyda Duw. Mae hyn yn rhoi hyder inni bod Duw trugaredd a maddeuant yn ein caru ni. Fel yr ysgrifennodd Irenaeus (esgob o'r ail ganrif): "Roedd Duw y Tad yn drugarog iawn: anfonodd ei Air creadigol a ddaeth, wrth ddod i'n gwaredu, i'r union fan a'r lle yr oeddem

wedi colli bywyd, a thorri cadwyni ein llyffetheiriau. Ymddangosodd ei oleuni a pheri i dywyllwch y carchar ddiiflannu, gan gysegru ein genedigaeth a dinistrio marwolaeth." Nid yw Duw yn sefyll o bell oddi wrthym ond daeth "i'r union fan a'r lle" y llechai pechod, dioddefaint a marwolaeth, i ganol bywyd dynol.

"Mae gobaith fel aderyn sy'n synhwyro'r wawr ac yn dechrau canu'n betrusgar tra bo hi'n parhau'n dywyll." (Anhysbys)

Cwestiynau

1. Gwyddom y bydd pawb ohonom yn marw. Sut mae credu bod Iesu wedi dinistrio marwolaeth yn ein helpu i wynebu'r gwirionedd hwnnw?
2. Sut allwn ni annog y rhai o'n cwnmpas i ystyried bod marw'n anochel ac i wynebu eu hofnau eu hunain ac ofnau pobl eraill?
3. Mae hwn yn bwnc anodd i lawer o bobl. Sut allwn ni sicrhau ein bod ar gael gyda ffydd, gobaith ac empathi i gydgerdded â nhw mewn cyd-destun ehangach?

Myfyrdod

Glawogydd yn disgyn, ond heb socian –
heddwch yn disgyn –
harddwch yn datblygu –
agoriad,
persawr,
emyn moliant perffaith,
yn gân heb eiriau.

Dyfnhau mae'r presenoldeb,
emosiwn yn ffrydio,
dagrau a diolchgarwch yn un.
Cofleidio'r ddynoliaeth
a gadael iddi fod.

Crychdonnau o gynhesrwydd
yn llifo'n dyner ddiddiwedd.
Dal y dwyfol
oddi mewn ac oddi allan
ym mod y dynol.

Pa addewid sy'n aros
pan ildia'r cnawd
i ryddid yr ysbryd?

Bydd Ysbryd ac Ysbryd Triol
yn dawnsio
rîl
tu hwnt i amser
at bopeth newydd.

Gweddi

Iesu atgyfodedig,
Helpa fi i gofleidio'r newyddion da dy
fod wedi tynnu colyn marwolaeth,
a rhoi i ni oll obaith gogoneddus.
Cymer fy ofnau a'm pryderon a galluoga
fi i gofleidio'r gwirionedd yn llawn,
gan fyw fel tyst i eraill
yn llefaru geiriau ffydd, gobaith
a chariad. **AMEN.**

Ewch a Gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personol: Ydych chi wedi cynllunio ar gyfer eich marwolaeth eich hun?
Cyflwynwch eich pryderon am farwolaeth i Dduw mewn gweddi. Siaradwch â
rhywun rydych chi'n ymddiried ynddynt am yr hyn rydych chi am ei weld yn
digwydd pan fyddwch yn marw.

Lleol: Dewch â grŵp o bobl ynghyd yn eich eglwys i siarad am farwolaeth a
marw. Gofynnwch am help gan sefydliadau ac elusennau lleol i drafod materion
megis gwneud ewyllys, galar a'r hyn mae'n ei olygu i farw'n dda.

Byd-eang: Ystyriwch sut y gallwch gefnogi mudiad hosbis a gofal lliniarol mewn
gwlad arall.

Day 4

The Paschal Mystery: The Incarnation, Passion, Death and Resurrection of Jesus

Scripture Readings

Philippians 2:8-9

Exodus 3:1-6

Isaiah 9:6-7

Commentary

In the creed we speak of Christ's humanity, of Christ humbling himself, even to death on the cross. However uncomfortable it might be, particularly in the current health obsessed culture, death has always been part of the Christian tradition and conversation. After all, being human gets messy: we make mistakes; we experience our bodily limits and failings; we hurt others; we die. Christ's redemptive work on the Cross destroys death and brings the promise of eternal life with God. This gives us confidence that we are loved by a God of mercy and forgiveness. As Irenaeus (a second century bishop) writes: "God the Father was very merciful: he sent his creative Word who, in coming to deliver us, came to the very place and spot in which we had lost life, and

broke the bonds of our fetters. His light appeared and made the darkness of the prison disappear and hallowed our birth and destroyed death." God does not stand aloof from us but came "to the very place and spot" where sin, suffering and death were found, right into the midst of human life.

"Hope is like a bird that senses the dawn and carefully starts to sing while it is still dark." (Anonymous)

Questions

1. We know that we will all die. How does belief in Jesus destroying death help us face this reality?
2. How can we encourage those around us to look at the inevitability of dying and death and to face both their fears and the fears of others?
3. This is a difficult subject for many people. How can we make ourselves available with faith, hope and empathy to walk alongside them in a wider setting?

Reflection

Rains fall, but do not soak –
Peace descends –
Beauty unfolds –
An opening,
A scent,
A perfect hymn of praise
Sung without words.

Presence deepens,
Emotion wells,
And tears meld with thankfulness.
To be known
Allowed to be.

Enfolding ripples of warmth
Flow in never-ending languor.
The presence of the numinous
Captured
Within and without
A simple human.

What promise awaits
When flesh departs to be emancipated
Into spirit?

Spirit and Spirit Three shall dance
A reel
Outside time
Into all things new.

Prayer

Risen Jesus,
Help me to grasp the good news that
 you have taken the sting out of death,
and given us all glorious hope.
Take my fears and worries and let me
 fully embrace the truth.
Living as a witness to others.
Speaking words of faith, hope and love.
AMEN.

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personal: Have you planned for your own death? Take your worries about death to God in prayer. Talk to someone you trust about what you want to happen when you die.

Local: Bring a group of people together in your church to talk about death and dying. Ask for help from local organisations and charities to discuss issues like making a will, grief and what it means to die well.

Global: Consider how you can support a hospice and palliative care movement in another country.

Diwrnod 5

Yr Ysbryd Glân, anadl Duw

Darlleniadau o'r Beibl

Ioan 20:19-23

Eseciel 37:9-14

Salm 104:24-34

Sylwadau

O'r dechreuad, bu Ysbryd Duw yn anadlu bywyd. Mae rhai o'n testunau hynafol yn ein cynorthwyo i ddeall yn ddyfnach waith yr Ysbryd a'r gwahoddiad i ninnau dderbyn rhodd yr Eiriolwr annwyl hwn.

Mae'r Ysbryd yn ein galw i adnewyddu wyneb y ddaear, gan ymuno yng ngwaith maddeuant ac iachâd. Ni allwn gyflawni'r alwad hon yn ein nerth ein hunain, yn hytrach mae'n rhaid i ni dderbyn rhodd Ysbryd Duw ynom ni, yn union fel y gwnaeth y disgyblion a oedd wedi ymgynnull yn yr oruwchystafell ei brofi. Dywedodd Iesu, wrth ymddangos i'r disgyblion, "Tangnefedd i chwi!" a, chan ddangos iddynt ei ddwylo a'i ystlys, anadlodd arnynt.

Cawn ein galw fel yr Eglwys i gadw a meithrin undod yn yr Ysbryd. Pan fyddwn yn byw ar wahân i'r Ysbryd rydym yn colli ein hanadl ac yn

dychwelyd i'r llwch, ond pan edrychwn tuag at Iesu am fywyd ac anadl, cawn ein hail-greu ar gyfer y gwaith o adnewyddu a chyd-greu breuddwyd Duw yn wirionedd heddiw, yma.

"Hwn yw'r Ysbryd sy'n peri arllwys yn ein calonau y cariad drwy'r hwn yr ydym yn cadw'r gorchmynion dwyfol trwy garu Duw a chymydog." Dyna ein galwad gyffredin a'n diben ar y cyd wrth i ni gael ein hanfon i'r byd.

Cwestiynau

1. Lle ydych chi'n teimlo'r angen yn eich bywyd eich hun am anadl yr Ysbryd i ddod â bywyd ac iachâd? Gweddiwch am anadl adfywiol Duw.
2. Lle ydyn ni'n gweld yr Ysbryd Glân ar waith, yn goresgyn ein rhaniadau ac yn ein cymell tuag at undod dyfnach?
3. Mae Ysbryd Duw yn adnewyddu wyneb y ddaear bob dydd, yn y byd o'n cwmipas a thu hwnt i ni. Lle ydyn ni'n gweld hynny'n digwydd a lle ydyn ni'n synhwyro angen penodol am adnewyddiad?

Myfyrddod

Chwa o lwch yn loetran ar hyd wyneb
y ddaear,
presenoldeb annelwig yn symud
uwchben y dŵr,
fflam grynedig a niwlen o fwg.
Yno,
yno rwyf ti,
yn anadlu, dawnsio, awgrymu, herio,
yn frith o egni.
Trwy dy anadl,
mae dy freuddwydion ar gyfer y byd yn
gwisgo cnawd.
Wedi'n gwefru gan dy gariad,
gallwn ddawnsio fel fflamau, anadlu
heddwch a hambygio esgryn.

Gweddi

Dduw, rhoddwr bywyd, goleuni'r byd,
anadl y nefoedd,
yr un Duw deirgwaith sanctaidd –
bendigedig wyt ddoe, heddiw ac yfory.
Cyffeswn ein ffydd gyffredin ynot ti.
Llawenhawn yn yr Ysbryd,
sy'n adnewyddu wyneb y ddaear
ac yn ein cymell tuag at undod
Maddeua i ni pan fydd ein hanadl
yn ddiflas.
Cynnau ni â than y Pentecost,
i lefaru gwirionedd yr efengyl sy'n dod
â rhyddid a bywyd.
Deffra ein gweddïau a'u gwisgo
â chnawd
wrth i ni gydweithio â thi
i wneud yn dda ac yn gyflawn
y cread cyfan.

Ewch a Gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personol: Dysgwch sut i ddefnyddio eich anadlu mewn gweddi. Gweddiwch gyda siant fer neu 'weddi anadl'. Gwahoddwch yr Ysbryd i'ch arwain.

Lleol: Ystyriwch ffyrdd o estyn allan yn eciwmenaidd at eglwysi eraill yn eich cymdogaeth, nid yn unig yn ystod yr Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol, ond drwy'r flwyddyn.

Byd-eang: Bob mis Chwefror, bydd eglwysi ledled y Deyrnas Unedig yn nodi Sul Cyfiawnder Hiliol. Beth mae eich eglwys chi yn ei wneud i ymateb i anghyfiawnder hiliaeth a chamwahaniaethu yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd? Gweddiwch gyda'ch gilydd am ddoethineb yr Ysbryd wrth i chi ystyried y cwestiwn hwn.

Day 5

Holy Spirit, breath of God

Scripture Readings

John 20:19-23

Ezekiel 37:9-14

Psalm 104:24-34

Commentary

The Spirit of God from the beginning has breathed life. Some of our ancient texts help us understand more deeply the work of the Spirit and our invitation to receive the gift of this beloved Advocate.

The Spirit calls us to renew the face of the earth, joining in the work of forgiveness and healing. We cannot live out this call in our own strength, rather we must receive the gift of God's Spirit within us, just as the disciples gathered in the upper room experienced. Jesus, appearing to the disciples, said: "Peace be with you", and showing them his hands and his side, breathed on them.

We are called as the Church to keep and nurture unity in Spirit. When we live apart from the Spirit we lose our breath and return to dust, but when we look to Jesus for life and breath, we are recreated for the work of renewal and the co-creation of the dream of God

to be made real here and now. "This is the Spirit by virtue of whom is poured out in our hearts the love with which we observe the divine commandments, by loving God and neighbour." It is our common calling, and common purpose as we are sent into the world.

Questions

1. Where do you sense the need in your own life for the breath of the Spirit to bring life and wholeness? Pray for God's breath to revive.
2. Where do we see the Holy Spirit at work, overcoming our divisions and drawing us into deeper unity?
3. God's Spirit renews the face of the earth every day – in the world around us and beyond us – where do we recognise this to be true and where do we sense a particular need for renewal?

Reflection

Swirl of dust moving along the face of
the ground,
untameable presence hovering above
the water,
flicker of flame and wisp of smoke.
There,
there you are.
Breathing, dancing, tending,
challenging, bristling with energy.
By your breath,
your dreams for the world are made
into flesh and bone,
animated by your love,
we can be fire dancers, peace breathers
and bone shakers.

Prayer

God, Giver of Life, Light of the World,
Breath of Heaven,
the one God three times holy –
Blessed are you past, present
and future.
We confess our common faith in you.
Let us rejoice in the Spirit,
who renews the face of the earth
and draws us towards unity.
Forgive us when our breath is
distasteful.
Enflame us with your Pentecost fire,
to speak the truth of the gospel that
brings freedom and life.
Awaken our prayers and give
them flesh
as we work with you,
to make well and full,
the whole of creation.

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personal: Learn about how to use your breathing in prayer. Pray a short chant or 'breath prayer'. Invite the Spirit to guide you.

Local: Consider ways to reach out ecumenically to other churches near you, not only during the Week of Prayer for Christian Unity, but across the year.

Global: Each February, churches across the UK mark Racial Justice Sunday. What is your church doing to respond to the injustice of racism and discrimination in the UK and around the world? Pray together for the wisdom of the Spirit as you explore this question.

Diwrnod 6

Yr Eglwys: cymuned o gredinwyr

Darlleniadau o'r Beibl

Eseia 2:2-4

Salm 133

Effesiaid 4:1-6

Sylwadau

Fe'n gelwir i fyw yn ostyngedig ac addfwyn, gydag amynedd, gan oddef ein gilydd mewn cariad, a chan wneud pob ymdrech i gynnal undod yr Ysbryd â rhwymyn tangnefedd.

Fel yr Eglwys mae'n rhaid i ni geisio gan Iesu y nerth a'r gostyngeddrwydd i fyw yn unol â'n galwad, nid yn unig o fewn ein cymunedau addoli ac yn eciwmenaidd, ond y tu hwnt i'n goruwchystafelloedd: ar ffyrdd Emmaus, gan rannu straeon â'n gilydd sy'n ein clymu yn ein stori gyffredin; wrth gydgyfarfod ar draethau lle mae'r Crist atgyfodedig yn ein herio i borthi ei ddefaid; yn y cyd-destunau a'r lleoedd y gwyddom bod angen ein gweddwid ynddynt.

Mae Iesu'n ein galw ynghyd i'n huno fel ei Briodferch, sydd wedi'i ffurfio (fel y mae Macsimws y Cyffeswr yn ei ddweud) o "bobl amrywiol aneirif, yn dra gwahanol o ran cefndir ac ymddangosiad, cenedl ac iaith,

ffordd o fyw ac oedran, gwybodaeth a chelfyddydau, diwylliant, traddodiadau a phriodoleddau, gwyddorau ac anrhydeddau, tynged, natur ac arferion – maent oll yn [yr Eglwys], yn yr hon y cânt oll eu hadfywio a'u hail-greu yn yr Ysbryd."

Y fath fraint yw bod yn rhan o gymuned mor gyfoethog ac amrywiol gyda galwad gyffredin i wneud disgyblion, i sefydlu heddwch ac i gydweithio i ddysgu ffyrdd Duw a cherdded yn llwybrau Duw wrth i ni deithio ynghyd tuag at Deyrnas Dduw sy'n cael ei gwireddu ym mhob cymuned a chwr o'r greadigaeth.

Gweddi

Dduw ein teithiau,
Grist ein glannau,
Ysbryd y gorwelion diderfyn,
Drindod gadarn,
tywys ni tuag at undod.
Heria ni i fentro o'n
goruwchystafelloedd a'n
llecynnau diogel,
i fod yn negeswyr goleuni
a thangnefedd.
Cynnau ni â goleuni dy gariad
a'n cymodi
â ni ein hunain,
â'n gilydd
ac â thi

wrth i ni ymgodymu â gwarth
ymrannu.
Impia dangnefedd, cariad a thosturi
wrth ein cenhadaeth a'n gwasanaeth.
Rhwyma â thangnefedd unrhyw
aelod toredig
fel y gallwn fynd allan i'r byd
a byw yn ffordd Iesu
er mwyn yr holl greadigaeth.

Myfyrdod

Roedd ei changhennau'n fy
ngorchuddio
gan greu cysgod tangnefedd.
Cofiaf hanesion dyddiau dedwydd
wrth i mi lithro'n dawel tua chwsg.
Pwysaf yn erbyn dy foncyff cadarn, â'm
llygaid yn hanner cau,
a sylwaf ar olau brith drwy'r dail
yn treiddio i gorneli fy enaid,
gan danio breuddwydion fu gynt
yn farw.
Deffroaf i agoriad ei blodau,

Cwestiynau

1. Gelwir yr Eglwys yn oleuni Crist yn y byd. Lle ydych chi'n gweld bod hynny'n wir ac ym mha ffyrdd y mae'n digwydd?
2. Yng Nghrist mae'r Eglwys yn un corff. Sut ydych chi wedi gweld bod hynny'n wir, a lle ydych chi wedi gweld cyfle am fwy o gyd-greu?
3. Mae'r Eglwys, fel cymuned yr Ysbryd Glân, awdur heddwch, yn cael ei hanfon i fyw heddwch a lledaenu neges heddwch yn y byd. Ym mha ffyrdd y gallai'r eglwysi yn eich ardal chi alluogi eu haelodau i gyflawni'r alwad hon?

yn ddisglair a chyfoethog â
phersawr gobaith
ac yn cael eu chwythu gan y gwynt, yn
chwipio'n brysur
drwy strydoedd lle bu gweledigaeth a
gobaith ar goll gyhyd.

Ewch a Gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personol: Meddyliwch sut rydych chi'n ymdrin ag anghydfod. Ystyriwch ffyrdd o adeiladu pontydd â phobl sydd â safbwyntiau gwahanol i'ch rai chi.

Lleol: "Nid yr Eglwys yw'r Eglwys ond pan fo hi'n bodoli ar gyfer eraill" (Dietrich Bonhoeffer). Ystyriwch y ffyrdd mae eich cymuned eglwysig chi'n ffyddlon i'r alwad hon i fodoli er mwyn eraill.

Byd-eang: Dysgwch fwy am yr hyn mae eglwysi'n ei wneud i weithredu ar faterion cyfiawnder byd-eang drwy sefydliadau fel Cymorth Cristnogol a CAFOD.

Day 6

The Church: Community of believers

Scripture Readings

Isaiah 2:2-4

Psalms 133

Ephesians 4:1-6

Commentary

We are called to live with humility and gentleness, with patience, bearing with one another in love, making every effort to maintain the unity of the Spirit in the bond of peace.

As the Church we must seek Jesus for the strength and humility to live out our calling, not just within our worshipping communities and ecumenically, but beyond our upper rooms: on Emmaus roads, sharing stories together that root us in our common story; gathered on shorelines where the risen Christ challenges us to feed his sheep; in the spaces and places that we know we need to be transfigured.

Jesus gathers us to be joined as his Bride, made up (as Maximus the Confessor puts it) of “many and countless people various and profoundly different in origin and appearance, nation and language,

way of life and age, knowledge and arts, manner of life, customs and propensities, sciences and honours, fate, temperaments and habits, all are in the [Church], through which all are regenerated and recreated in the Spirit.”

What a privilege to be part of such a rich and diverse community with a common call to make disciples, to bring peace and to work together in learning God’s ways and walking in God’s paths as we journey towards God’s Kingdom being made real in every community and corner of creation.

Prayer

God of our journeyings,
Christ of our shorelines,
Spirit of endless horizons,
beckon us towards unity.
Challenge us to step out of our upper
rooms and safe spaces,
to be bringers of light and peace.
Imbue us with the light of your love,
reconciling us
to ourselves,
to each other
and to you
when we confront the scandal
of division.

Graft peace, love and compassion into
our mission and discipleship.
Bind with peace any broken limb
that we might go into the world
and live the way of Jesus
for the sake of all creation.

Reflection

Her branches draped over me
create the shade of peace.
I recount stories of halcyon days
as I effortlessly drift towards slumber.
Leaning against your stoic mass, eyes
half shut
I notice mottled light through
the leaves
permeating the corners of my soul,
illuminating dreams once dead.
I awaken to the opening of
her blossom,
radiant and rich with the scent of hope

Questions

1. The Church is called be the light of Christ in the world. Where do you see this to be true and in what ways is it happening?
2. In Christ the Church is one body – how have you seen this to be true, and where have you seen opportunity for more co-creation?
3. The Church as the community of the Holy Spirit, the giver of peace, is sent to live and spread the message of peace in the world. In what ways might your local churches enable their members to fulfil this calling?

blown by the wind, whipped up
and bustling
through streets long devoid of
expectation and vision.

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personal: Reflect on how you handle disagreement. Explore ways to build bridges with people who have different views to your own.

Local: “The Church is the Church only when it exists for others” (*Dietrich Bonhoeffer*). Explore ways in which your church community live up to this calling of existing for the sake of others?

Global: Find out more about what churches are doing to take action on global justice issues through organisations such as Christian Aid and CAFOD.

Diwrnod 7

Bedydd i Atgyfodiad a Marwolaeth yr Arglwydd

Darlleniadau o'r Beibl

Micha 7:18-19

Salm 51:1,10,12

Mathew 28:16-20

Sylwadau

Ysgrifennodd Ioan Aurenau yng Nghaergystennin ar ddiwedd y bedwaredd ganrif fod Duw mewn Bedydd yn ein bendithio â “gormodedd o'i ras.” Mae'n dod fel tân yn ein heneidiau, yn ein trawsffurfio fel mwyn i aur, “gan losgi'r ‘dull daearol’, a chreu ‘delw'r nefol’, fel darn arian newydd ei fathu, yn llachar ac yn ddisglair, megis o fowld y ffwrnais.”

Dywed Emrys o Filan, a ysgrifennai tua'r un adeg: “Ni feiddiasoch edrych tua'r nefoedd, troesoch eich llygaid tua'r ddaear, ac yn ddisymwth derbyniasoch ras Crist. Cyfodwch, felly, eich llygaid at y Tad yr hwn a'ch cenhedlodd drwy fedydd, at y Tad yr hwn a'ch gwaredodd chwi drwy'r Mab, a dywedwch, ‘Ein Tad!’. Mae hyn a fu unwaith ynom ac a garcharodd ein trem tuag at i lawr mewn cywilydd, tuag at lwch a baw'r ddaear, bellach yn toddi, gan ryddhau ein llygaid tua'r nefoedd i lefain ‘Abba, Dad.’”

Myfyrdod

Mae Crist wedi claddu dy orffennol yn y beddrod gydag ef fel y gelli godi yng nghroth cariad Duw i fywyd newydd – dechrau o'r dechrau – codi byth mwy mewn Ie dwyfol. Yn nwylo Duw mae dy ddyfodol, dyfodol tragwyddol, sydd eisoes wedi dechrau. Gristion, rwy'ti'n cael dy socian ganddo, rwy'ti'n diferu ohono.

Gweddi

Gyda diolchgarwch y tu hwnt i unrhyw iaith, moliannwn di, O Arglwydd, a chlodforwn dy enw.

Am i ti ein galw yn ein bedydd i ymddiried mewn ffydd, am ein cymundeb yn y Cyfamod Newydd, am yr undod sy'n eiddo i ni eisoes a'th bresenoldeb yn yr Eglwys sanctaidd: moliannwn di, O Arglwydd, a chlodforwn dy enw.

Am dystiolaeth Cristnogion dan
erledigaeth,
am loes eu merthyrdod,
am eu cyfranogiad yn nioedfaint
Crist:
moliannwn di, O Arglwydd, a
chlodforwn dy enw.

Am holl weision cymundeb,
am y rhai sy'n gweddio ac yn gweithio
dros gymodi eglwysi,
am y rhai sy'n ildio eu bywydau er
gwasanaethu undod:
moliannwn di, O Arglwydd, a
chlodforwn dy enw.

Prysurar dydd, atolygwn i ti,
y bydd ein heglwysi'n llwyr gydnabod
ei gilydd,
y cymundeb hwnnw a ewyllysiaist ti,
ac y gweddiodd dy Fab amdano.
Gofynnwn hyn yng ngrym yr Ysbryd
Glân. **AMEN.**

Cwestiynau

1. Mae Cristnogion yn cael eu bedyddio i gariad grymus marwolaeth ac atgyfodiad Crist. Beth mae eich bedydd chithau yn ei olygu i chi heddiw?
2. Mae pechod yn ein hanffurfio mewn gwahanol ffyrdd, yn bersonol ac ar hyd gwead ein cymunedau. Trwy fedydd, mae Duw'n ein rhyddhau ni. Sut allwch chi fyw'r rhyddid hwn a phosibiliadau creadigol cariad tuag at eraill yn eich ardal chi?
3. O ystyried y gwahanol draddodiadau ac arferion eglwysig rydym wedi'u hetifeddu, sut mae cyffesu gyda'n gilydd "un Arglwydd, un ffydd, un bedydd" (Effesiaid 4:5) yn effeithio ar ein perthynas â Christnogion eraill ymhell ac agos?

Ewch a Gwnewch

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personol: Myfyriwch ynghylch ennyn trawsffurfiol ar bererindod eich ffydd. Rhannwch eich myfyrdod ag eraill.

Lleol: Trefnwch daith gerdded neu bererindod eciwmenaidd ynghyd â Christnogion o draddodiadau eraill.

Byd-eang: Beth mae eich ffydd wedi eich rhyddhau oddi wrtho? Beth mae wedi eich rhyddhau i'w wneud? Ystyriwch sut y gallech fyw grym rhyddhaol ffydd drwy weithredu i helpu i ryddhau rhai sydd dan ormes.

Day 7

Baptism into the Death and Resurrection of the Lord

Scripture Readings

Micah 7:18-19

Psalms 51:1, 10, 12

Matthew 28:16-20

Commentary

John Chrysostom in Constantinople in the late 4th century wrote that in Baptism God lavishes upon us an “excess of his grace.” It comes like fire in our souls, transfiguring the ore of us into gold, “burning up the ‘image of the earthy,’ and producing ‘the image of the heavenly,’ fresh coined, bright and glittering, as from the furnace-mould.”

Ambrose of Milan, writing around the same time, says: “you dared not lift up your face towards heaven, you turned your eyes towards the earth, and suddenly you received the grace of Christ ... Lift up, therefore, your eyes to the Father, who has begotten you through baptism, to the Father who has redeemed you through the Son, and say, ‘Our Father!’ What once within us imprisoned our gaze downwards in shame upon the dust and dirt of the earth melts, releasing our eyes heavenwards to cry out ‘Abba, Father.’”

Reflection

Christ has buried your past
in the tomb with him
so that you can rise
in God womb of love
to new life
– begin again –
rise ever more
in Divine Yes to you.
God is taking care of your future.
It is an eternal one.
It has already begun.
You are soaked in it Christian,
dripping with it.

Prayer

With gratitude beyond all
possible language
we praise you, O Lord, and glorify
your name.

For having called us to the trusting of
faith in baptism,
for the communion we share in the
New Covenant,
for the unity we already enjoy and your
presence in the holy Church:
we praise you, O Lord, and glorify
your name.

For the witness of persecuted Christians,

for the suffering of their martyrdom,
for their participation in

Christ's passion:
we praise you, O Lord, and glorify
your name.

For all servants of communion,
for those who pray and work for the
reconciliation of churches,
for those who lay down their lives in the
service of unity
we praise you, O Lord, and glorify
your name.

Hasten the day, we beg you,
of the full mutual recognition of
our churches
that communion you desire,
and for which your Son prayed.
We ask this in the power of the Holy
Spirit. **AMEN.**

Questions

1. Christians are baptised into the dynamic love that is the death and resurrection of Christ. What does your baptism mean to you today?
2. Sin disfigures us in various ways, both personally and across the fabric of our communities. Through baptism, God liberates us. How can you live this freedom and the creative possibilities of love towards others in your area?
3. Given the different Church traditions and practices we have received, how does confessing together "one Lord, one faith, one baptism" (*Ephesians 4:5*) affect our relationships with other Christians near and afar?

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personal: Reflect on a transformative moment in your journey of faith. Share your reflection with others.

Local: Organise an ecumenical walk or pilgrimage together with Christians from other traditions.

Global: What has your faith freed you from? What has it made you free to do? Consider how you can live out the liberative power of faith by acting to help free those who are oppressed.

Diwrnod 8

Disgwyl am y Deyrnas

Darlleniadau o'r Beibl

Datguddiad 21:1-4

Salm 85:8,10-12

Luc 12:35-40

Sylwadau

Mae Credo Nicea'n gorffen gydag edrych ymlaen at atgyfodiad yr hyn a fu farw a bywyd yn yr oes sydd i ddod. Fel Cristnogion, rydym yn credu mewn gobaith, hyd yn oed yn y manau tywyllaf, hyd yn oed dan gysgod marwolaeth. Cariad trawsffurfiol Duw sy'n ein herio i obeithio. Ysgrifennodd Isaac o Ninefe: "Mae pwy bynnag sy'n byw mewn cariad yn y greadigaeth hon yn anadlu'r bywyd sy'n dod oddi wrth Dduw... mae cariad yn faeth digonol."

Mae cariad wrth galon teyrnas Dduw, yma ar y ddaear a hefyd yn y nefoedd, lle na fydd marwolaeth nac ymrannu mwyach a lle sychir pob deigrin. Wrth i ni weddio am fwy o undod Cristnogol yn y bywyd hwn, rydym i fyw bywydau o gariad a gwasanaeth i eraill. Roedd Crist yn ymgorffori

Cwestiynau

1. Ystyriwch sut rydych chi'n ymgorffori arwyddion o'r Deyrnas sy'n dod yn y byd heddiw.
2. Yn Luc pennod 12 fe'n gelwir i gadw ein lampau ynghyn ac i fod yn barod ar gyfer dyfodiad y Deyrnas. Sut mae'r eglwysi yn eich ardal leol yn paratoi?
3. Lle ydych chi'n gweld arwyddion o obaith yn yr oes sydd ohoni?

bywyd o gariad. Meddai Dorothee Sölle, "Gwnaeth Crist Dduw yn amlwg trwy wneud pobl anweledig yn weladwy – y tlawd, menywod, pawb a amddifadwyd o'u hawlau." Wrth geisio mwy o undod, rydym yn gweithio i wneud cariad Duw tuag at bawb yn hysbys, gan ddisgwyl mewn gobaith am gyflawni Teyrnas Dduw.

Myfyrdod

Pa lawenydd sydd mewn gobaith?
Pa lawenydd sydd mewn undod?
Rydyn ni'n llwglyd ar y ffordd,
ac yn Nuw cawn ein maethu.
Pryd fyddwn ni'n fodlon?
Dim ond pan fyddwn ni'n bwydo ein
chwiorydd a'n brodyr,
yn estyn llaw at y ddynoliaeth, yn
croesawu'r dieithryn.
Pan fyddwn yn cyffwrdd â'r
greadigaeth wrth i ni wylïo'n
ddisgwylgar
am yr adeg pryd fydd cyfiawnder a
heddwch yn cusanu.

Cadwch eich lampau ynghyn,
byddwch effro.
Oherwydd mae llawenydd mewn
undod, mae llawenydd mewn gobaith.
Yn y gobaith hwnnw y canwn "alelwia".

Gweddi

Dduw gobaith, rwyt yn addo y bydd
y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd yn
etifeddu Teyrnas Nefoedd.
Tyrd â bywyd newydd i'r rhai sy'n
ymddiried ynot.
Grist, fe wyddost tithau beth yw loes
ymraniad, eto mewn tristwch rwyt
yn dangos i ni lwybr cysur.
Cynorthwya ni i gofio mai ti yw'r
llawenydd na ellir ei ddiddymu.
Iesu, rwyt ti'n disodli'r rhai pwerus,
gan addo gwisgo'r tangnefeddwyr
mewn gŵn ysblennnydd, a'u galw'n
Blant i Dduw.
Gwna ni'n genhadon dy dangnefedd.
Grist trugaredd a thosturi, maddeuaist
i'r lleidr a fu farw gyda thi ar groes.
Cofia ni oll pan ddoi i'th deyrnas.
AMEN.

Ewch a Gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personol: Pwy yw'r rhai sy'n cael eu gwneud i deimlo'n anweledig neu eu bod wedi'u hanwybyddu yn ein byd heddiw? Beth allwch chi ei wneud i estyn llaw trugaredd tuag at rywun yn y sefyllfa honno?

Lleol: Dysgwch am unigolyn neu gymuned sydd wedi ymroi i ddod â gobaith i fyd rhanedig. Meddyliwch sut allech chithau a'ch eglwys ddilyn eu hesiampl neu ymuno â'u gwaith.

Byd-eang: Dysgwch fwy am Gyngor Eglwysi'r Byd yn www.oikoumene.org. Sut allech chi gefnogi gwaith Cyngor Eglwysi'r Byd o hyrwyddo undod Cristnogol mewn gweddi a gweithred?

Day 8

Waiting for the Kingdom

Scripture Readings

Revelation 21:1-4

Psalm 85:8,10-12

Luke 12:35-40

Commentary

The Nicene creed concludes that we look forward to the resurrection of that which is dead and to life in the age to come. As Christians we believe in hope, even in the darkest of places, even in death. It is the transforming love of God that dares us to hope. Isaac of Nineveh writes, “whoever lives in love in this creation breathes the life coming from God”, declaring that “love is sufficient to nourish.”

Love is at the heart of the Kingdom of God, here on earth and also in heaven, where there will be no more death or division and all tears will be wiped away. As we pray for greater Christian unity in this life, we are to live lives of love and service to others. Christ embodied a life of love. Dorothee Solle writes, “Christ made God manifest by making invisible people visible – the

poor, women, all those deprived of their rights.” In our pursuit of greater unity, we work to make God’s love for all known and we wait in hope for the fulfilment of God’s Kingdom.

Questions

1. Consider how you are embodying signs of the coming Kingdom in the world today.
2. In Luke Chapter 12 we are called to ‘keep our lamps burning’ and be ready for the coming of the Kingdom. How are the churches in your local area preparing?
3. Where are you seeing signs of hope in the present age?

Reflection

What joy is there in hope?
What joy is there in unity?
We are hungry on the road,
and in God we are nourished.
When shall we be satisfied?
Only when we feed our sisters
and brothers.
Reaching out to humanity,
welcoming the stranger.
Touching creation as we watch
and wait.
For a time when righteousness
and peace kiss.

Keep your lamps burning, keep watch.
For there is joy in unity, there is joy
in hope.
In this hope we sing "alleluia".

Prayer

God of hope, you promise that the
poor in spirit will inherit the
Kingdom of Heaven.
Bring new life to those who trust
in you.
Christ, you know the pain of division,
yet in sadness you teach us the way
of consolation.
Help us to remember that you are the
joy that cannot be removed.
Jesus, you cast down the powerful,
promising to clothe the
peacemakers with a glorious robe,
calling them the Children of God.
Make us bearers of your peace.
Christ of mercy and compassion, you
forgave the thief who died with you
on a cross.
Remember us all when you come into
your kingdom. **AMEN.**

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Personal: Who is made to feel invisible or overlooked in our world today? What can you do to reach out to someone in that position?

Local: Find out about an individual or community dedicated to bringing hope to a divided world. Think about how you and your church can follow their example or join their work.

Global: Learn more about the World Council of Churches (WCC) at www.oikoumene.org. How can you support the WCC's work of promoting Christian unity in prayer and action?

YR WYTHNOS WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL 2025



ctbi.org.uk/weekofprayer
weekofprayer.org

ISBN: 978-0-85169-425-2

Cyhoeddwyd gan
Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain
ac Iwerddon

Interchurch House
35 Lower Marsh
Llundain SE1 7RL
info@ctbi.org.uk,
Ffôn: 0203 794 2288

Elusen gofrestredig rhif 1113299.
Cwmni cyfyngedig trwy warant,
rhif cofrestru 5661787.

X (Twitter): #wpcu2025
#wpcuwall

Published by
Churches Together in Britain
and Ireland

Interchurch House
35 Lower Marsh
London SE1 7RL
info@ctbi.org.uk,
Tel: 0203 794 2288

Registered charity no. 1113299.
Company limited by guarantee,
registered no. 5661787.